# Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-2020

**Y cefndir yng Nghaerffili – yr hanes y tu ôl i'r llinell sylfaen**
Bu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ers iddo ddod i fod yn 1996.

Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd wedi cynyddu mwy na 60% i'r lefel bresennol, sef mwy na 2900. Yn ystod y cyfnod hwn o 20 mlynedd, sefydlwyd 3 ysgol ychwanegol a chafodd 7 o'r 8 ysgol wreiddiol adeiladau newydd neu addasiadau / estyniadau er mwyn cynyddu nifer y lleoedd.

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cynyddu oddeutu 75% o 900 i 1600. Symudodd yr ysgol i safle newydd yn 2002 a chafodd ei datblygu ymhellach i ail safle (Y Gwyndy) yn 2013. 2,348 yw nifer fwyaf y lleoedd ar y ddau safle gyda'i gilydd a disgwylir eu llenwi tua 2025.

Ceir tystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg uchod ac mae'n dal i fod yn flaenoriaeth iddo fel y dangosir ym Mand A o raglen Llywodraeth Cymru, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

**1. Y weledigaeth:**
Mae'r cynllun hwn yn llawn dyheadau ond mae'n amlwg ei fod yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru i gyflawni Rhaglen Lywodraethu 2016-2021 Prif Weinidog Cymru, Symud Cymru Ymlaen, gan weithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd cyllid yn galluogi gwaith tuag at ddyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n golygu bod yn rhaid inni erbyn hyn gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg. Un o'r safonau allweddol yw gofyniad i lunio strategaeth 5 mlynedd y Gymraeg, gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac a fydd yn ein galluogi i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol.

Ein nod yw sicrhau cydraddoldeb mynediad trwy hyrwyddo a chynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu addysg gynhwysol ac ymrwymo i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwn yn gweithio'n strategol gyda'n gilydd fel rhanbarth gyda Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-ddwyrain Cymru i roi i ysgolion a darparwyr addysg ar draws ystodau oedran a sectorau ieithyddol y gallu a'r cynaliadwyedd i godi safonau yn y Gymraeg ac i hybu defnyddio'r Gymraeg mewn teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd.

Ein nod bydd ysgogi a chyflenwi darpariaeth leol, hygyrch, gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Amcanion:**
Erbyn 2020 byddwn yn:
- Gwella safonau cyrhaeddiad yn arbennig yng Nghyfnod Allweddol 4 ar drothwy Lefel 2+

- Codi lefelau presenoldeb
- Lleihau effaith tlodi ar blant a phobl ifanc
- Dal i fynd ati i hybu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar er mwyn ysgogi galw gan rieni
- Cynyddu nifer y plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn unol ag arolygon o'r galw gan rieni sef 18% yn y sector cynradd erbyn 2018 (cynnydd o 9.19% yn 1996) ac 20% yn y sector uwchradd erbyn 2023 (cynnydd o 7.30% yn 1996).
- Mynd ati i reoli lleoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau nad oes gormod o leoedd gwag.
- Cydweithio â thîm ysgolion yr 21ain ganrif yn Llywodraeth Cymru i ganfod cyllid ym Mand B o raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ar gyfer datblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle maent yn dod o dan bwysau, yn enwedig ardal Bedwas Tretomos Machen, ac ardal Dwyrain Islwyn.

**Datganiad o gysylltiadau â strategaethau ehangach:**
Mae gweithio amlasiantaethol yn ganolog i'r ffordd ymlaen er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr, ni waeth beth fo ei gefndir economaidd cymdeithasol, gyfle cyfartal i wireddu disgwyliadau uchel.

Mae 'Ailysgrifennu'r Dyfodol' yn rhoi pwyslais ar awdurdodau lleol, consortia ac ysgolion yn cydweithio â phartneriaid amlasiantaethol ar draws y pedair thema allweddol: ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned; y blynyddoedd cynnar (0-7); addysgu a dysgu o safon uchel; disgwyliadau a dyheadau. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i hyn fel un o'r Amcanion Gwella ar draws Addysg.

Mae YGCRh yn Ysgol Arloesi Dysgu Proffesiynol ac felly mae dyletswydd gofal arni i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gallu cael profiad dysgu proffesiynol effeithiol, gan hwyluso datblygiad parhaus, gwella eu harweinyddiaeth, eu dealltwriaeth o addysgeg ymarferol ac yn benodol i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus i gyhoeddi Asesiad o Lesiant erbyn mis Mawrth 2017 a Chynllun Llesiant i fwrdeistref Caerffili erbyn mis Mawrth 2018. Er ei fod yn ei gamau drafft, mae gwaith ymgynghori â'r cyhoedd wedi pwysleisio pwysigrwydd addysg o ansawdd da i bawb ac ategu pob un o'r saith nod llesiant. Gwelir pwysigrwydd gwella safonau a galluogi pontio i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gadarnhaol yn thema gyffredin i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Hefyd mae cysylltiadau cryf iawn o'r cynllun hwn i'r adrannau ar gyfer Caerffili Fwy Cyfartal, mewn perthynas â gwella cyfleoedd mewn cymunedau economaidd cymdeithasol, Caerffili Fwy Ffyniannus a Chaerffili â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.

Er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n bwysig iawn gwella darpariaeth mewn gofal iechyd ac addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth â grwpiau neu sefydliadau yn y gymuned i barhau i ddefnyddio Cymraeg llafar yn gymdeithasol neu yn y gweithle ar ôl gorffen addysg ffurfiol. Oni bai y parheir i ddefnyddio'r Gymraeg mae risg y gallai pobl ifanc o gartrefi Saesneg golli hyder yn eu sgiliau Cymraeg.

Mae Fforwm Lleol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerffili yn cyfarfod bob tymor. Ei brif ddibenion yw:

- Monitro amcanion a chynlluniau gweithredol partneriaid tuag at gyflawni’r amcanion yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Caerffili
- Darparu diweddariadau ynghylch yr amcanion yng nghylch gwaith eu sefydliadau
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a phartneriaethau wrth iddynt godi er mwyn cynyddu’r ddarpariaeth a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerffili
- Rhannu arferion gorau ac arloesedd
- Cyfrannu at fforwm rhanbarthol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

**2. Cludiant**

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Darparwch ddatganiad ynghylch hygyrchedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eich awdurdod lleol mewn perthynas â chludiant rhwng y cartref a’r ysgol. Nodwch unrhyw heriau a/neu feysydd lle ceir arferion da trwy gydweithredu.

Mae Caerffili yn cydymffurfio â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 gan ddarparu cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn unol â’n polisi cludiant unigol. Mae polisi cludiant Caerffili yn fwy hael na’r gofynion deddfwriaethol gan ei fod yn darparu cludiant i’r ysgol ‘berthnasol’ (h.y. ysgol dalgylch neu agosaf) sef 1.5 milltir yn y sector cynradd a 2 filltir yn y sector uwchradd. Hefyd darperir cludiant ôl-16 i fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau heb gost i’r myfyrwyr a rhieni / gwarcheidwaid.

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Y sefyllfa bresennol o ran nifer y plant saith oed sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a’n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf yw tua 20% y flwyddyn. Mae'r niferoedd a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagamcaniadau yn seiliedig ar ein derbyniad presennol o blant 3 oed i'r Cyfnod Sylfaen. Gyda datblygiad Cylchoedd Meithrin a chynyddu ymwybyddiaeth rhieni, rhagwelwn y bydd y nifer sy'n mynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen yn codi ond ni fydd hynny'n effeithio ar nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd nes y bydd y cylch cynllunio nesaf yn cael ei weithredu.

| Sefyllfa Bresennol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 384 | 371 | 374 | 391 |

Ein pum amcan er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn yw:

1. Datblygu darpariaeth o fewn Band B rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif er mwyn mynd i'r afael â chynyddu anghenion cynhwysedd yn yr ardaloedd a nodwyd (yn berthnasol i weithred 6.3 yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili)
2. Datblygu ymagwedd ranbarthol at gynyddu'r ddarpariaeth ar draws y blynyddoedd cynnar ac wrth wneud hynny ysgogi'r galw. Bydd hyn yn cynnwys

gweithio gyda Swyddogion Mudiad Meithrin i wella cyfraddau pontio mewn cylchoedd Meithrin gyda chyfradd drosglwyddo o dan 75%

3. Gweithio'n rhanbarthol gydag ystod eang o randdeiliaid i ddatblygu darpariaeth ddigonol a chynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio ar gyfer y Cynnig Gofal Plant erbyn 2020/2021 (yn berthnasol i weithred 6.3 yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili)
4. Cynnal arolwg blynyddol o alw rhieni ac ymgorffori'r canlyniadau wrth gynllunio ar gyfer lleoedd ysgolion.
5. Gweithio'n rhanbarthol i gynllunio'n strategol ar gyfer creu darpariaeth gynyddol gan gynnwys datblygu deunyddiau gwybodaeth i deuluoedd, er enghraifft, gan archwilio datblygu llyfryn i rieni drwy grant Cronfa Glyndŵr.

Ar hyn o bryd mae 11 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar draws y fwrdeistref sirol sydd gyda'i gilydd â bron 3000 o leoedd. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni 2 safle (Gelli Haf a'r Gwyndy) sy'n darparu 2,348 o leoedd.

Cytunodd y Cyngor ar ei gynllun blaenoriaethol cyntaf ym Mand A o raglen Llywodraeth Cymru, Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, fel buddsoddiad gwerth £20 miliwn ar safle Y Gwyndy. Roedd y buddsoddiad yn cynnwys ysgol newydd yn lle hen Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili gyda lle i oddeutu 450 o ddisgyblion a darpariaeth uwchradd â 900 o leoedd fel ail safle ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Hefyd, cafodd hen adeilad Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili ei ddatblygu i fod yn gyfleuster blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol, gan greu campws 0-19. Mae'r safle hefyd wedi cael gwell meysydd chwarae awyr agored, gan gynnwys maes 3G maint llawn.

Mae'r rhaglen gyfalaf addysg wedi cael ei defnyddio i ddatblygu rhagor o leoedd yn y blynyddoedd diwethaf, gan gael ei hategu gan arian lles cynllunio a106. Mae'r cyllid adran 106 hwn wedi galluogi capasiti i gynyddu drwy ychwanegu ystafelloedd dosbarth ychwanegol at safleoedd ysgol presennol. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws yr awdurdod lleol i wneud y gorau o'r defnydd o gyllid adran 106.

O ran y sector cynradd, mae'r nifer fwyaf sylweddol o leoedd gwag yng nghanol a rhan uchaf ardal Cwm Rhymni. Ar hyn o bryd mae galw am bron yr holl leoedd yn ardaloedd Basn Caerffili a dwyrain Islwyn, ac ystyriwyd buddsoddi yn yr ardaloedd hyn fel rhan o gais y Cyngor o dan Fand B (2019-2024) o'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'r galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu ers sefydlu CBSC ac yn arbennig felly yn y blynyddoedd diwethaf. Mae canran y disgyblion mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn: Sector Cynradd: 1997 (8.9%), 2007 (12.1%), 2010 (14.4%), 2016 (16.8%). Sector Uwchradd: 1997 (6.9%), 2007 (9.0%), 2010 (10.6%), 2016 (12.3%). Bydd y rhaglen Band B yn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n ffynnu yng Nghaerffili drwy sicrhau bod digon o leoedd cyfrwng Cymraeg yn cael eu datblygu mewn ardaloedd lle maent dan bwysau, fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017 - 2020. Mae datblygiad o dan Fand B yn cydnabod yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae cynigion yn cynnwys potensial ar gyfer datblygu darpariaeth gofal plant ar yr holl safleoedd y gwnaed cynigion ar eu cyfer, ond bydd yn ddibynnol ar sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru yng nghynnig Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif a chynigion dilynol ar gyfer rhaglen gyfalaf Cynnig Gofal Plant.

Cafodd yr asesiad addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â rheoliadau 2013 ei gynnal yn 2015, ac mae wedi'i atodi yn Atodiad 2. Caiff asesiad arall ei gynnal yn 2018 yn unol â'r gofyniad o ran cylch 3 blynedd. Hefyd cynhelir arolwg o'r galw gan rieni bob blwyddyn. Y rhain yw'r sail ar gyfer yr holl amcanestyniadau o dueddiadau'r galw yn y dyfodol ac maent yn darparu tystiolaeth o'r angen am leoedd ychwanegol a'u lleoliad yn y fwrdeistref. Yn flaenorol, mae arolygon rhieni wedi dylanwadu ar ddarpariaeth ieithyddol ysgolion newydd, er enghraifft, agorwyd Ysgol Penalltau fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i ddiwallu'r galw cynyddol a'r angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol.

Mae'r Asesiad llawn o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn cael ei gynnal yn 2016 gyda golwg ar ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2017. Bydd yr arolygon o'r galw gan rieni'n adlewyrchu'r galw am ofal plant ac iaith y ddarpariaeth a byddant yn sail i'r Cynllun Gweithredu Gofal Plant blynyddol er mwyn datblygu darpariaeth newydd a chynnal neu ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Rhagwelwn gynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant y bydd eu hangen yn ystod oes Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 ar draws y sector i gefnogi'r gofal plant i'r holl blant 3 a 4 oed y mae eu rhieni'n gweithio.

| **Ardal cynllunio gymunedol** | **Cylchoedd Meithrin gan gynnwys Cylchoedd heb eu cofrestru** | **Cylchoedd Meithrin a lleoliadau a gynhelir sy'n cynnig Dechrau'n Deg** | **Cylchoedd Meithrin sy'n cynnig Addysg y Blynyddoedd Cynnar** | **Gofal cofleidiol** | **Clybiau ar ôl ysgol** | **Clwb Brecwast** | **Darpariaeth gwyliau** | **Ti A Fi** | **Darpariaeth 11-14** | **% o blant hŷn na 3 oed sy'n cael rhywfaint o ddefnydd o'r Gymraeg yn ôl adroddiad y Fenter Iaith 2016** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Basn Caerffili | 3 | 2 | 1 | 3 | 3 | 1 | 2 | 2 | 1 | 13.21% |
| Cwm Sirhywi Isaf | 3 | 1 | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 10.08% |
| Gorllewin Canol y Cymoedd | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 | 2 | 0 | 12.04% |
| Dwyrain Canol y Cymoedd | 3 | 1 | 3 | 1 | 2 | 1 | 0 | 2 | 1 | 10.36% |
| Cwm Rhymni Uchaf | 3 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9.6% |

Mae 2 Gylch Meithrin yn cynnig Lleoedd â Chymorth sef cynllun i gynorthwyo plant ag oediad datblygiad sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg i gael darpariaeth gofal plant i gynorthwyo â'u datblygiad.
Hefyd mae 6 gwarchodwr plant sy'n siarad Cymraeg a 3 meithrinfa ddydd sydd wedi'u cofrestru gydag AGGCC fel rhai dwyieithog.

Mae'r Fenter Iaith yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion yr awdurdod lleol a'r

Mudiad Meithrin i gynorthwyo Cylchoedd Meithrin a lleoliadau gofal plant i wella'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws y fwrdeistref. Mae'r contract presennol ar waith tan 31 Mawrth 2017 gydag opsiwn i'w ymestyn ymhellach tan 31 Mawrth 2018.

Mae Ffordd i Ddwyieithrwydd yn gynllun sicrhau ansawdd i gynorthwyo i ddatblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a chynorthwyo lleoliadau cyfrwng Cymraeg lle mae yna ymarferwyr sy'n dysgu Cymraeg. Ar hyn o bryd mae 6 meithrinfa ddydd, 3 gwarchodwr plant, 6 grŵp chwarae, 7 lleoliad Dechrau'n Deg a gynhelir, a 6 lleoliad yn aros i ddechrau.

Mae pob rhiant yn cael gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg o *lyfryn Dechrau Ysgol* Caerffili sy'n cael ei ddosbarthu gyda ffurflenni cais am le mewn ysgol yn ogystal â bod ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Gall rhieni gael gwybodaeth am ofal plant a darpariaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. (yn berthnasol i weithred 1.2 yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Mae gweithio gyda rhieni ar y cyfle cyntaf posibl yn galluogi'r rhieni i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch iaith y ddarpariaeth y bydd eu plant yn ei mynychu. Bydd y Rhwydwaith Rhieni, y Fenter Iaith trwy'r rhaglen Lleisiau a Chymraeg i blant yn cydweithio i hyrwyddo gwybodaeth i rieni, ac i godi ymwybyddiaeth gyda staff rheng flaen o fuddion dwyieithrwydd. (yn berthnasol i weithred 1.1&1.3 yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Mae 'Cymraeg i Blant' yn brosiect sy'n cael ei redeg gan y Mudiad Meithrin ar draws Caerffili ac sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant oedran meithrin a all siarad Cymraeg. Mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni ar fuddion bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg i blant mor gynnar ag sy'n bosibl, a manteision dewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r swyddog Cymraeg i Blant lleol yn cynnal sesiynau tylino babi, ioga babi ac amser stori a chân dwyieithog wythnosol i rieni a phlant ifanc drwy'r sir gan weithio ochr yn ochr â'r timau Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd lleol i sicrhau bod rhieni'n derbyn y negeseuon cynnar allweddol hyn yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl geni a'u bod yn ymwybodol o'r llwybr dwyieithog sydd ar gael ar gyfer eu plentyn.

Hefyd caiff rhieni eu cyfeirio at grwpiau Ti a Fi y Mudiad Meithrin ac at Gylchoedd Meithrin y grwpiau chwarae Cymraeg yn ogystal â derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau rheolaidd ar gyfer rhieni a gynhelir mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith a phartneriaid blynyddoedd cynnar lleol eraill.

Mae Cymraeg i Blant yn ceisio cyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ymgyrch gan y Mudiad Meithrin i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg yw

**Cychwyngorau / Beststart**.

Mae Swyddogion Cefnogi'r Mudiad Meithrin yn darparu cymorth ac adnoddau i staff

Cylch Meithrin i hyrwyddo buddion addysg cyfrwng Cymraeg i rieni'r plant sy'n ei fynychu. Mae Cylchoedd Meithrin lle mae'r cyfraddau pontio'n is na 50% yn cael eu targedu fel rhan o fenter Cychwyn Gorau sy'n rhan o'n targedau yr adroddir amdanynt i'r Uned Addysg Gymraeg.

Bwriad y cylch cynllunio nesaf ar gyfer y Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol yw cael pedwar grŵp gorchwyl a gorffen i symud ymlaen â rhaglenni gwaith arwyddocaol. Mae un is-grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygiadau o fewn y Blynyddoedd Cynnar (yn berthnasol yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili). Bydd gan yr is-grŵp hwn swyddogion perthnasol o bob awdurdod lleol yng Ngwent, Mudiad Meithrin a'r tri sefydliad Menter Iaith yn y rhanbarth, yn ogystal â chynrychiolaeth gan y RhAG neu sefydliadau eraill mewn cyfarfodydd perthnasol. Bydd y meysydd ffocws cychwynnol yn cynnwys:

- Cynyddu'r nifer o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth gan gynnwys datblygu darpariaeth newydd yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth bresennol drwy wneud newidiadau i adeiladau neu wasanaethau ychwanegol a gynigir.
- Hyfforddi a recriwtio staff a gwella sgiliau iaith Gymraeg ar draws y rhanbarth i ddatblygu cysondeb mewn defnydd iaith gan staff lleoliadau gofal plant i hyrwyddo caffael iaith, gan gynnwys cysylltu â'r ysgol gynradd sy'n bwydo ar gyfer cysondeb wrth ddefnyddio iaith a chefnogi pontio positif.
- Cynaliadwyedd a chymorth busnes i sicrhau bod gan bob gofal plant gynllun busnes cadarn i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i alluogi i gynyddu yn ystod y cynllun hwn. Bydd y ffocws hwn hefyd yn edrych ar sut y gall lleoliadau gofal plant dderbyn lleoedd a ariennir drwy'r Cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg ac Addysg Blynyddoedd Cynnar i wneud y gorau o unrhyw arian a dderbynnir yn ogystal â darparu gwasanaeth ehangach i rieni sy'n talu ffioedd a darparu darpariaeth gymunedol.
- Gwella cyfraddau pontio rhwng Cylchoedd ac Ysgolion Cynradd.

Bydd y Cynnig Gofal Plant angen nifer sylweddol o leoedd gofal plant a gall lleoliad fod yn hanfodol i'w cynaladwyedd, felly bydd y grŵp hwn yn cysylltu drwy'r Fforwm Addysg Gymraeg i sicrhau bod yr is-grŵp sy'n edrych ar gynllunio lleoedd mewn ysgolion yn gysylltiedig â gwaith datblygu gyda'r grŵp blynyddoedd cynnar sy'n datblygu darpariaeth gofal plant. Mae Caerffili wedi cynnwys y datblygiad hwn o adeiladau o fewn ei gynigion Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn amodol ar sicrhau cyllid cyfalaf Cynnig Gofal Plant. Bydd y ceisiadau yn cael eu cyflwyno unwaith y'u hagorir ar gyfer rhaglen gyfalaf Cynnig Gofal Plant, a ragwelir yn 2018-2021.

Yng Nghaerffili mae ein poblogaeth, er ei bod yn symud rhwng ardaloedd cymunedol, yn weddol sefydlog o ran symud i mewn i'r fwrdeistref ac allan ohoni, ac felly caiff rhieni eu hannog i wneud eu penderfyniadau ar ddarpariaeth addysg yn y blynyddoedd cynnar, gan leihau'r galw am bolisi ar hwyrddyfodiaid. Fodd bynnag, trafodwyd datblygiad polisi Hwyrddyfodiaid ar gyfer datblygiad lleol a rhanbarthol posibl o dan is-grŵp Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol ar gyfer cynllunio lleoedd a hyrwyddo galw.

**Cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B.**

Cytunwyd ar y cynigion mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar achos busnes. Hefyd mae gweithgor trawsbleidiol wedi adolygu'r cynigion. Trafodir

adroddiad yn y Tîm Rheoli Corfforaethol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i Aelodau'r Cyngor.

**Blynyddoedd Cynnar**

Mae Swyddogion Blynyddoedd Cynnar yr Awdurdod Lleol yn cyfarfod yn rheolaidd gyda swyddogion y Mudiad Meithrin i drafod lleoliadau lleol a sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio i gefnogi unrhyw faterion sy'n codi. Mae un Cylch Meithrin wedi cau yn ardal Llanbradach oherwydd problemau cynaliadwyedd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda swyddogion yn y Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd a nodwyd yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (CSA) 2017, sef ardaloedd Bedwas Tretomas a Machen yn ogystal â chofrestru darpariaeth bresennol yn ardal Crosskeys.

Gweithredwyd y Cynnig Gofal Plant i Gymru o Fedi 2017. Hyd yma mae 83 o ddarparwyr gofal plant wedi ymrwymo i'r Cytundeb Ariannu o leoliadau Cymraeg a Saesneg. Derbyniwyd 96 o geisiadau erbyn canol Tachwedd ar gyfer tymor yr Hydref ac 20 cais ar gyfer Gwanwyn 2018. Mae llwyddiant prosesau ar gyfer dechrau gweithredu wedi golygu estyniad i ddwy ardal arall o'r fwrdeistref fel y bydd rhieni sy'n gweithio gyda phlant rhwng 3 a 4 oed yn y Cyfnod Sylfaen yn rhan amser o 3/5 o'r fwrdeistref bellach yn elwa ar gymorth gofal plant. Bellach mae'r ffocws ar ddatblygu digon o leoliadau gwyliau a chofleidiol mewn lleoliadau gofal plant Cymraeg a Saesneg.

Mae'r tîm Blynyddoedd Cynnar yn gweithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin a chydweithwyr o'r Fenter Iaith i gynyddu a chynnal niferoedd lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar gyfer y Cynnig Gofal Plant i Gymru mewn ardaloedd peilot ac ardaloedd yr ehangir iddynt. Bydd hyn yn cynnwys datblygu lleoedd darparu newydd a chreu lleoedd ychwanegol mewn darpariaeth bresennol, yn ogystal â chynnwys gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn i blant cymwys allu cael mynediad at y ddarpariaeth naill ai ar y safle neu'n lleol. Mae Cynnig Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B yn uchelgeisiol ac mae'n cynnwys gweithio ar y cyd â chyllid cyfalaf y Cynnig Gofal Plant i ddatblygu gofal plant ar neu ger safleoedd ysgol lle y bo'n bosibl er mwyn sicrhau cysondeb i rieni a phlant a sicrhau lleoliad hirdymor i ddarparwyr gofal plant. Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr mewn awdurdodau cyfagos i sicrhau bod darparwyr gofal plant trawsffiniol hefyd yn cael eu cynnwys yn y cynnig.

**Mudiad Meithrin**

Gŵyl Feithrin - gwahoddwyd rhieni / gofalwyr plant mewn Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi yn y De Ddwyrain i ddigwyddiad blynyddol y Mudiad Meithrin yn Sain Ffagan. Roedd yn gyfle i rieni a phlant fod yn rhan o ddigwyddiad Cymraeg y tu allan i'r Cylch Meithrin.

Mae'r Mudiad Meithrin eisoes yn gweithio ar wella'r broses drosglwyddo ond mae rhai ffactorau sydd y tu hwnt i'n gallu i ymyrryd â nhw, e.e. cludiant, lleoliadau daearyddol, cost cludiant cyn ysgol.

Mae staff y Mudiad Meithrin a Chylchoedd Meithrin yn trafod manteision bod yn ddwyieithog gyda rhieni mewn:

• Cyngherddau Nadolig y Cylchoedd Meithrin (Gwahoddwyd Penaethiaid Ysgolion Cymraeg iddynt)

• Cylchoedd Ti a Fi wrth ddosbarthu pecynnau gwybodaeth
• Digwyddiadau'r Fenter Iaith
• Ffair Nadolig
• Boreau Coffi
• Sesiynau Cymraeg i Blant

Croesi'r Bont – cynllun peilot y Mudiad Meithrin yn y De Ddwyrain. Mae Cylch Meithrin Dewi Sant a Chylch Meithrin Coed Duon yn cymryd rhan,
• Cyflwyno patrymau iaith i staff a phlant y Cylch
• Meithrin perthynas agos gyda'r Ysgol Gymraeg leol, cytuno ar iaith benodol

**Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B**

Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn paratoi cynllun ariannol i'r Cyngor ei ystyried fydd yn amlinellu'r cynigion ariannol ar gyfer cyfraniad yr Awdurdod at brosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B.
Yn amodol ar sêl bendith aelodau ar gyfer y dull ariannu, yn dilyn hyn yn gynnar yn nhymor y Gwanwyn bydd cynllun prosiect ar gyfer rhaglen Band B lawn i aelodau ei ystyried.
Gobeithio y caiff yr achosion busnes cyntaf eu cyflwyno'n fuan ar ôl i raglen LlC ddechrau yn Ebrill 2019.

Un cynnig yw ar gyfer datblygu ac ymestyn Ysgol Gynradd Cwm Gwyddon gan gynnwys datblygu darpariaeth gofal plant ar y safle os bydd y cais i raglen gyfalaf y Cynnig Gofal Plant yn llwyddiannus.

Yr ail gynnig yw datblygu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Bedwas Tretomas ac eto yn cynnwys darpariaeth gofal plant ar y safle os bydd y cais i raglen gyfalaf y Cynnig Gofal Plant yn llwyddiannus.

**Ceisiadau rhaglen gyfalaf cyfrwng Cymraeg**

Cyflwynwyd cais ar gyfer y rhaglen gyfalaf cyfrwng Cymraeg ym Mehefin 2018 a chawsom wybod am y ceisiadau llwyddiannus ym Medi 2018. Rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid i ddatblygu ac ehangu ar leoedd yn cynnwys ar gyfer darpariaeth gofal plant yn Ysgol Ifor Bach, Ysgol Penalltau, Ysgol Cwm Derwen, Ysgol Y Castell ac Ysgol Bro Allta.

**Ceisiadau rhaglen gyfalaf gofal plant**

Cyflwynwyd ceisiadau i gyd-fynd â cheisiadau ysgol yr 21ain ganrif Band B yn ogystal â datblygu yn ardal Pengam Fleur i sicrhau lleoliad ar gyfer Cylch Meithrin Coed Duon ac o bosibl i ehangu darpariaeth i ofal dydd llawn, gan gysylltu â chyfleoedd myfyrwyr a staff yng Nghwm Rhymni. Rydym hefyd wedi cynnig 2 bot arian mwy hyblyg i gefnogi darpariaeth Meithrinfa Ddydd a grwpiau sesiynol sydd heb gyflwyno cynigion hyd yma.

**Blynyddoedd Cynnar**

Gyda'r cynigion cyfalaf a restrir uchod, y nod yw y bydd proses drosglwyddo well o

ddarpariaeth cyn-ysgol mewn Cylch Meithrin, os yw'r lleoliadau ar safle'r ysgol neu gerllaw. Bydd hefyd yn sicrhau mwy o hyblygrwydd ar gyfer y sector gofal plant os yw'r darparwyr yn gallu cynnig lleoedd Dechrau'n Deg, y Cynnig Gofal Plant a lleoedd eraill a ariennir, ynghyd â lleoedd gofal plant y telir amdanynt / di-dreth.

Mae Swyddogion Datblygu Gofal Plant yn CBSC yn gweithio gyda'r Mudiad Meithrin a'r Fenter Iaith yn ogystal â'r holl leoliadau gofal plant i ystyried ehangu darpariaeth ymhellach i gwrdd â'r galw cynyddol a ysgogir gan y Cynnig Gofal Pant. Datblygwyd darpariaeth gofleidiol fel man ategol i Gylch Meithrin Rhymni yn Ysgol y Lawnt i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n gweithio, a datblygwyd Darpariaeth Ar Ôl Ysgol newydd yn Ysgol Cwm Derwen yn lle'r ddarpariaeth a gaewyd yn gynharach eleni.

**Llenyddiaeth hyrwyddo**

Mae'r tasglu dan arweiniad y Fenter Iaith wedi datblygu taflen i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd i helpu rhieni i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth cyn dechrau'r ysgol. Mae'r daflen hon wrthi'n cael ei chwblhau a bydd yn cael ei rhannu erbyn diwedd 2018. Bydd y pdf hefyd ar Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gwefannau partneriaid i sicrhau ei bod yn cyrraedd nifer ddigonol o rieni wrth ddewis iaith Addysg.

Bod yn Ddwyieithog
Becoming Bilingual FIN

**Mudiad Meithrin**

Mae **ClwbCwtsh** yn rhaglen flasu wyth wythnos sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc. Mae wedi'i hanelu at ddarpar rieni, rhieni/gofalwyr ac aelodau estynedig y teulu. Gall plant ddod i'r sesiynau hefyd a chael eu difyrru tra bod yr oedolion yn dysgu. Roedd nifer dda'n bresennol yn sesiynau cyntaf ac roedd cyfleoedd i drafod gofal plant ac addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae Croesi'r Bont yn gynllun sy'n cyflwyno dull trochi plant yn yr iaith Gymraeg o fewn Cylchoedd Meithrin a sicrhau proses bontio ieithyddol o'r Cylch i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd y cynllun mewn 2 Gylch Meithrin yn cynnwys Ysgol Cwm Derwen a gafodd eu canmol yn yr arolwg diweddar gan ESTYN. Dyma a ddywedwyd am y plant 'Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r Gymraeg ac maent yn ymateb yn effeithiol i gyfarwyddiadau gan oedolion. Gydag anogaeth, mae nifer o blant yn dechrau defnyddio geirfa gyfarwydd â phatrymau iaith yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ac amser egwyl'.

Mae staff Cylchoedd Meithrin yn parhau i siarad gyda rhieni am fanteision bod yn ddwyieithog i annog rhieni i drosglwyddo eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae ffactorau cludiant a lleoliadau daearyddol yn dal i fod yn broblem.

Mae staff hefyd yn annog teuluoedd i chwilio am gyfleoedd y tu allan i'r Cylch Meithrin i glywed/ddefnyddio'r Gymraeg e.e. mynychu'r ŵyl Feithrin, digwyddiadau'r Fenter Iaith ayb. Dywed y rhan fwyaf o Gylchoedd Meithrin bod nifer fawr o blant yn bresennol ynddynt.

Mae Cylch Meithrin Rhymni wedi ehangu trwy agor safle ategol yn Ysgol Y Lawnt ar gyfer gofal cofleidiol 'Cylch Meithrin Mwy Rhymni'. Ar hyn o bryd maent yn disgwyl i gael eu cofrestru gan AGC.
Mae Cylch Meithrin Parc Waunfawr, lleoliad heb ei gofrestru, roedd nifer y plant yn parhau i fod yn isel a theimlid y byddai AGC yn annhebygol o'i gofrestru.

Diweddariad SAS 11.18 Update.pdf

**Cymraeg i blant**

Mae gweithio gyda phlant mor gynnar â phosibl yn galluogi i rieni wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn ag iaith y ddarpariaeth y byddant yn ei mynychu. Bydd Cymraeg i blant, Rhwydwaith Rhieni, Menter Iaith Caerffili drwy'r rhaglen Lleisiau, yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo gwybodaeth i rieni, a chodi ymwybyddiaeth gyda staff rheng flaen o fanteision dwyieithrwydd (yn gysylltiedig â cham 1.1 a1.3 yn Strategaeth Iaith Gymraeg blwyddyn 5 CBSC).

Mae Cymraeg i blant yn brosiect Cymru Gyfan sy'n cael ei reoli gan y Mudiad Meithrin a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant o oedran meithrin sy'n gallu siarad Cymraeg yn unol â tharged Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'n rhannu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni ar fanteision bod yn ddwyieithog, pwysigrwydd cyflwyno'r Gymraeg i blant mor gynnar â phosibl a manteision gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Noddir y ffolder nodiadau mamolaeth Cymru gyfan, cerdyn sgan a'r llyfr cofnodi Iechyd Plentyn gan Cymraeg i blant ac mae'n cynnwys negeseuon dwyieithog allweddol wedi'u hanelu at rieni newydd.

Rhennir y taflenni canlynol gyda rhieni: 'Eich Canllaw i Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru/Cymraeg i blant) llyfryn Bod yn Ddwyieithog Caerffili (mynd i'r wasg) yn ogystal ag adnoddau ychwanegol.

Cynhelir grwpiau cymorth wythnosol ar lefel leol: cyfeirir y grwpiau at sesiynau tylino babi, ioga babi ac amser stori a chân dwyieithog wythnosol gan y Bydwragedd yn y gymuned a'r timau Ymwelwyr Iechyd. Mae hyn yn galluogi i rieni fod yn ymwybodol yn gynnar o'r llwybr dwyieithog sydd ar gael i'w plentyn. Mae adnoddau ychwanegol hefyd yn cael eu cynnwys yn rheolaidd ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol i rieni eu gweld. Hefyd, mae Cymraeg i blant yn cefnogi digwyddiadau i deuluoedd a gynhelir mewn partneriaeth â Menter Iaith Caerffili a phartneriaid blynyddoedd cynnar eraill i hybu addysg cyfrwng Cymraeg.

**Rhwydwaith Rhieni**

Mae'r Rhwydwaith Rhieni wedi gweithio gyda dau grŵp o blant / rhieni i ddatblygu llyfrau plant dwyieithog: Ysgirfennwyd Partners in Time gan blant Ysgol Gynradd Penalltau gyda nawdd gan Gyngor Cymuned Gelligaer; ysgrifennwyd Fistful of Feathers gan rieni a phlant Ysgol Gynradd Graig Y Rhacca i ddelio â phroblem benthycwyr arian didrwydded.

**Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.**

Y sefyllfa bresennol a'n targedau ar gyfer y tair blynedd nesaf mewn perthynas â nifer y disgyblion ym mlwyddyn naw a asesir mewn Cymraeg (iaith gyntaf)

| Y sefyllfa bresennol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 232 | 308 | 302 | 320 |

Ein tri amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn yw:

1. Cydweithio â Swyddogion y Mudiad Meithrin i wella cyfraddau pontio mewn Cylchoedd Meithrin sydd â chyfradd pontio o dan 75%
2. Cynnal cyfraddau pontio uchel o ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd.
3. Cynnal ansawdd pontio o gofio heriau rheoli ysgol uwchradd sydd wedi'i rhannu rhwng dau safle – Gelli Haf a'r Gwyndy.

Mae nifer y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau gofal plant nas cynhelir sy'n cynnig lleoedd a ariennir dan y Cyfnod Sylfaen i blant sy'n codi'n dair oed, lleoedd nas ariennir a lleoedd Dechrau'n Deg i'w gweld yn y data yn Atodiad 1, data sydd wedi'u cyflenwi gan y Mudiad Meithrin ym mis Tachwedd 2016. Mae pryderon ynghylch cyfraddau pontio mewn 3 lleoliad gofal plant cofrestredig ac 1 ddarpariaeth anghofrestredig. Mae Mudiad Meithrin a swyddogion awdurdodau lleol yn cwrdd bob mis i adolygu unrhyw bryderon ynglŷn â lleoliadau, gan gynnwys pontio, cefnogaeth ieithyddol, anghenion cymorth busnes ac ati. Fodd bynnag, mae hyn bellach yn flaenoriaeth uchel a gaiff ei symud ymlaen mewn is-grŵp o'r Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol sy'n canolbwyntio'n benodol ar y Blynyddoedd Cynnar. Yn ogystal, mae cynigion Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys datblygu darpariaeth gofal plant penodol fel rhan o raglen adeiladu / adnewyddu ysgolion ond mae'n parhau i fod yn ddarostyngedig i geisiadau cyllido llwyddiannus ar gyfer rhaglen gyfalaf y Cynnig Gofal Plant. Bydd hyn yn cynorthwyo i symud Cylchoedd a Chlybiau i safleoedd ysgol a gwella lles plant, cyfraddau pontio i Gynradd, cysondeb mewn caffael iaith yn ogystal ag effeithiolrwydd i rieni.

Mae'r holl leoliadau'n cael cymorth i gynnig pontio da i deuluoedd symud ymlaen o Ddechrau'n Deg i Addysg y Blynyddoedd Cynnar neu o leoliadau nas cynhelir i ddarpariaeth feithrin Cyfnod Sylfaen a gynhelir mewn ysgolion. Rydym yn annog lleoliadau i ddefnyddio gwaith papur tebyg er mwyn caniatáu ar gyfer symud rhwng lleoliadau ac atal dryswch yn ogystal ag annog lleoliadau i weithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn cwblhau ffurflenni cais am leoedd o fewn y terfynau amser, gan enwi'r ddarpariaeth sy'n ddewis cyntaf ganddynt. Un o'r pethau mae'r Mudiad Meithrin wedi canolbwyntio arno yw cydweithio â Chylchoedd Meithrin i wella cyfraddau pontio. Yn nhymor yr haf 2016 roedd 70 o blant mewn lleoedd Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn y 7 Cylch Meithrin.

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin Tonyfelin | 16 |
| Cylch Meithrin Nelson | 9 |
| Cylch Meithrin Pontllanfraith | 9 |
| Cylch Meithrin Dewi Sant | 9 |

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin Coed Duon | 3 |
| Cylch Meithrin Cwm Derwen | 12 |
| Cylch Meithrin yr Enfys | 12 |

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y plant a aseswyd yn Gymraeg fel mamiaith ym mlwyddyn 6 ac yna ym mlwyddyn 9 o fewn Caerffili. Mae 100% o ddysgwyr blwyddyn 9 mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (YGCRh) yn cael eu hasesu yn Gymraeg (mamiaith). Mae cyfraddau Cynnydd o'r 11 ysgol gynradd yn y dalgylch yn cyfrannu at y cydweithio o fewn clwstwr ysgolion YGCRh. Mae cyfraddau trosglwyddo o'r Cyfnod Sylfaen i CA2, CA2 i CA3 a CA3 i CA4 oll yn parhau i fod yn uchel - 100%.

| Safle'r Gwyndy | Safle Gelli Haf | |
|---|---|---|
| • Ysgol Gymraeg Caerffili | • Ysgol Gymraeg Penalltau | • Ysgol Gymraeg y Lawnt |
| • Ysgol Gymraeg y Castell | • Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon | • Ysgol Gymraeg Bro Sannan |
| • Ysgol Gymraeg Ifor Bach | • Ysgol Gymraeg Cwm Derwen | • Ysgol Gymraeg Gilfach |
| | • Ysgol Gymraeg Bro Allta | • Ysgol Gymraeg Trelyn |

Mae'r cydweithredu rhwng yr ysgolion yn gryfder sylweddol sy'n cyfrannu at y llwyddiant a'r safonau uchel iawn a gyflawnir gan yr ysgolion hyn. Cydnabyddir clwstwr Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn bartneriaeth arloesi lwyddiannus iawn lle mae arferion da'n cael eu rhannu'n gyson ar bob lefel ar draws y clwstwr. Nod y cydweithredu yw sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref Caerffili'n cael cyfleoedd addysgol a fydd yn ei alluogi i wireddu ei botensial.

**CYNNYDD Y DISGYBLION YW GWRAIDD POPETH**

Oherwydd y cydweithredu hwn mae modd cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a gweithgareddau yn yr ysgolion cynradd neu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni er mwyn hybu datblygiad disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion.

**Cynllun Pontio Ysgol Gyfun Cwm Rhymni:**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn sicrhau bod pob disgybl sy'n dechrau yn yr Ysgol yn awyddus i ddatblygu ymhellach ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r ysgolion cynradd yn cydweithio'n agos trwy rannu gwybodaeth a datblygu cynlluniau er mwyn sicrhau bod cyfnod cychwynnol y disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn un hapus a llwyddiannus.

**Cynllun cyd-fentora:**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain cynllun mentora ar draws holl ysgolion cynradd clwstwr Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae gan bob ysgol gynlluniau gwahanol i gynorthwyo ac arwain disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol neu o wahanol fathau er mwyn datblygu eu galluoedd, yn benodol ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Mae cynlluniau ymyrraeth disgyblion unigol yn amrywio yn ôl yr ysgol ac anghenion y disgyblion, ac maent wedi profi'n effeithiol dros gyfnod o amser. Mae yna gydweithredu effeithiol ar draws y clwstwr fel bod arferion da'n cael eu rhannu er mwyn sicrhau cynnydd y disgyblion.

Mae dau o athrawon Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cael amser digyswllt ychwanegol i ganiatáu iddynt ymweld â phob ysgol gynradd yn rheolaidd i drafod cynlluniau ymyrraeth ac i drafod disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6. Drwy ddarparu system mentora effeithiol ar draws y clwstwr, mae disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion yn cael budd o weithgareddau cynlluniedig ar draws y clwstwr er mwyn datblygu yn unol â'u talent, gallu neu anghenion personol.

**Bydd yr holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cael cyfle i gymryd rhan mewn Diwrnodau Gweithgareddau:**

**Diwrnodau Gweithgareddau Estynedig:**
Trefnir ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn canolbwyntio ar ieithoedd a chyfathrebu a gwyddoniaeth, mathemateg a rhifedd. Cynhelir cyfres o ddiwrnodau yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion blwyddyn 6 ddatblygu eu dealltwriaeth neu allu estynedig mewn maes neu feysydd penodol.

**Diwrnodau Gweithgareddau Ychwanegol:**
Trefnir ar gyfer y disgyblion hynny yr ymddengys na allant fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol oherwydd amddifadedd neu broblemau cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r disgyblion hyn yn cael budd o gynlluniau'r ysgol i gynorthwyo ac arwain disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r cynllun cyd-fentora'n atgyfnerthu'r gwaith hwn ac yn galluogi Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i ddatblygu cyfleoedd ychwanegol ar draws y clwstwr er mwyn meithrin uchelgais a hyder y plant.

Cynhelir cyfres o ddiwrnodau yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac mewn lleoliadau eraill sy'n rhoi i'r disgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6 gyfle i ddatblygu eu huchelgais a'u hyder ac ar yr un pryd gwella dealltwriaeth o dopigau nad ydynt o angenrheidrwydd ar gael yn yr ysgol gynradd.

**Diwrnodau Gweithgareddau Arbennig:**
Trefnir ar gyfer disgyblion nad ydynt wedi cymryd rhan yn y diwrnodau gweithgareddau estynedig neu'r diwrnodau gweithgareddau ychwanegol. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau tebyg i'r rhai mae eu cyfoedion wedi'u cyflawni yn ystod y diwrnodau gweithgareddau eraill. Mae'r diwrnodau hyn wedi'u bwriadu i wella dealltwriaeth y plant o'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn dechrau yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac i'w paratoi'n fwy effeithiol ar gyfer y cyfnod pontio hynod bwysig hwn.

**Gwyddoniaeth ym mlwyddyn 6**
Mae adran gwyddoniaeth Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithredu gydag athrawon blwyddyn 6 i gyflwyno uned o waith gwyddoniaeth ym mlwyddyn 6. Mae athrawon o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ymweld â'r ysgol gynradd i gynnal gwersi gwyddoniaeth ac mae disgyblion blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i gael profiad o wneud arbrofion mewn labordy.

**Diwrnodau Chwil Chwarae**
Cynhelir diwrnodau cerddorol yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni lle mae disgyblion sydd â thalent gerddorol benodol yn cael cyfle i gwrdd â'r athrawon cerddoriaeth a disgyblion talentog eraill ac i berfformio o flaen cynulleidfa.

**Diwrnod Pontio**
Mae'r disgyblion yn cael amserlen ar gyfer y diwrnod sy'n eu galluogi i brofi gweithgareddau fel dosbarthiadau blwyddyn 7. Mae'r gweithgareddau'n cael eu cynllunio fel bod y disgyblion yn cael profiadau na fyddent yn eu cael fel arfer yn yr ysgol gynradd ond a fydd ar gael iddynt ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

**Nosweithiau Pontio**
Cynhelir dwy noson i ddarpar rieni yn ystod cyfnod disgybl ym mlwyddyn 6:
- Noson gyflwyniad i'r ysgol a'r adeiladau a chyfle i'r rhieni gwrdd ag arweinwyr yr ysgol.
- Noson weithgareddau seiliedig ar bynciau fel y gall y rhieni gael blas ar y math o bynciau y bydd y disgyblion yn eu hastudio ym mlwyddyn 7. Mae cyfle hefyd i brynu gwisg ysgol.

**Ymweliadau unigol**
Yn aml bydd gan blant mwy bregus bryderon ychwanegol wrth ystyried dechrau ym Mlwyddyn 7. Mae croeso i rieni a phlant unigol ymweld â'r ysgol ar adegau cyfleus er mwyn sicrhau cyflwyniad effeithiol i'r ysgol. Cyfres o ymweliadau fydd y rhain yn aml, yn dechrau ar ôl yr ysgol pan gânt eu tywys o gwmpas y safle pan mae'n dawel gan aelod o'r staff, gan symud ymlaen i ymweliadau hirach i gael profiad o weithgareddau'r ysgol.

**Blynyddoedd Cynnar**

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd bob mis gyda Swyddogion ALl a'r Mudiad Meithrin i ddelio ag unrhyw bryderon ynglŷn â darpariaeth. Cynhelir cyfarfodydd gofal plant ehangach bob tymor a chynhelir cyfarfodydd monitro bob chwarter gyda'r Fenter Iaith.
Gyda'r cynigion cyfalaf a restrir uchod, y nod yw gwella'r broses drosglwyddo o ddarpariaeth cyn-ysgol mewn Cylchoedd Meithrin is yw'r lleoliadau ar safle'r ysgol neu'n nes ato.

**Cyfraddau Trosglwyddo o Ysgolion Cynradd i Ysgolion Uwchradd**

Mae cyfraddau trosglwyddo'n dal i fod yn rhagorol gyda chyfradd o 100% ar gyfer disgyblion, yn cynnwys cefnogaeth ehangach i'r dysgwyr mwyaf bregus.

**Yr Urdd**
Mae gweithgareddau'r Urdd yn helpu i wella sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol Gynradd a'r ysgol Uwchradd. Mae plant a phobl ifanc yn gallu mynd i ddigwyddiadau Cymraeg yn y gymuned, sy'n cynnwys Clwb Ieuenctid Cymraeg ym Margoed. Mae'r clwb yn bartneriaeth rhwng yr Urdd, Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili a'r Fenter Iaith. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn gallu mynd i weithgareddau'r Urdd, sy'n cynnwys ymweliadau â chanolfannau preswyl, gweithgareddau chwaraeon, yr Eisteddfod, teithiau tramor, a theithiau undydd. Mae'r holl weithgareddau hyn yn helpu i wella sgiliau iaith mewn amgylchedd anffurfiol. Mae pob ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerffili'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd.
Mae ein Swyddog Ieuenctid wedi gweithio gyda'r tîm Lles o fewn yr ysgol, gan gynnig cefnogaeth i blant gyda'u sgiliau iaith.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

Ein sefyllfa bresennol a'n targedau mewn perthynas â chanran y dysgwyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Y sefyllfa bresennol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% | 100% |

Ein sefyllfa bresennol a'n targedau mewn perthynas â chanran y dysgwyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg.

| Y sefyllfa bresennol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% | 100% |

Ein pedwar amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn yw:

1. Sicrhau bod y ddarpariaeth i ddysgwyr 14-16 oed yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
2. Cynnal adolygiad o drefniadaeth y ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref Caerffili gan gynnwys y ddarpariaeth 14-19. Bydd hyn yn cyd-fynd ag adolygiad o'r 6ed dosbarth mewn ysgolion ac addysg drydyddol.
3. Parhau i ddatblygu llwybr dysgu cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol yn 16 oed, a hybu cwricwlwm ôl-16 Lefel 2 i'r rheini nad ydynt yn cyrraedd y trothwy Lefel 2 ar gyfer Cymraeg / Saesneg a Mathemateg.
4. Ystyried ymagwedd ranbarthol at y ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg (Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Y Gwyndy, Ysgol Gyfun Gwynllyw (Torfaen) ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed (Casnewydd) wrth ddatblygu, hybu a chynnal llwybrau dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg effeithiol. Caiff hyn ei ddatblygu drwy is-grŵp Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol ar gyfer llwybrau 14-19 sy'n cysylltu'r tair ysgol uwchradd, 2 goleg a'r brifysgol. (yn berthnasol i weithred 2.3, 5.7&6.3 yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Mae disgyblion Caerffili sydd mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Ychydig iawn o eithriadau sydd. Mae disgyblion Caerffili yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cael eu cofrestru ar gyfer dau TGAU Mathemateg, dau TGAU Gwyddoniaeth, tri TGAU dewisol a Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ogystal â Chymraeg / Llenyddiaeth Gymraeg.

Canran y dysgwyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) sy'n cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf **pum** cymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 **arall** drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw'r unig sefydliad yn yr awdurdod lleol a all ddarparu Llwybr Dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar ddau safle 7 milltir oddi wrth ei gilydd. Ym mis Medi 2016, dechreuodd 82 o ddisgyblion blwyddyn 10 ar eu cwricwlwm 14-16. Erbyn mis Medi 2018 bydd angen darparu cwricwlwm ôl-16 i'r disgyblion hynny ar safle'r Gwyndy sydd eisiau parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae'r holl fyfyrwyr 14-16 oed sy'n astudio ar gyfer TGAU neu bynciau galwedigaethol Lefel 1 neu 2 yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sicrhau cynnydd yn argaeledd cyrsiau TGAU a chyrsiau galwedigaethol Lefel 1 a 2 cyfrwng Cymraeg ar draws ein hawdurdod lleol yn gryn her i'r awdurdod gan fod y ddarpariaeth eisoes yn rhagori ar y disgwyliadau statudol (mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cynnig 30 o gyrsiau Lefel 2 gan gynnwys 5 cwrs galwedigaethol). Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gweithredu nifer o strategaethau gyda'r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n parhau i fanteisio ar ddarpariaeth 14-19 cyfrwng Cymraeg:

Mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni strategaeth ar gyfer cymorth bugeiliol cyfrwng Cymraeg sy'n galluogi pob plentyn i gael cymorth priodol pan fo ei angen. Mae'r cymorth hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gwbl ymwybodol o'r ddarpariaeth 14-16 cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, gan sicrhau bod bron 100% o'r disgyblion CA3 yn trosglwyddo i CA4.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn nodi'r disgyblion hynny ym mlwyddyn 9 sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r disgyblion hyn yn dod yn aelodau o'r Ganolfan Llwybrau Dysgu Cyfrwng Cymraeg ac yn dilyn cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n arbennig i apelio atynt ac sydd â'r nod o sicrhau na fyddant yn peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae strategaeth y Ganolfan Llwybrau Dysgu Cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn ffordd effeithiol o wella disgwyliadau'r disgyblion. Mae'r strategaeth hon wedi sicrhau bod y disgyblion hyn wedi parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg nes eu bod yn 16 oed a bod pob disgybl wedi cael lle mewn hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg ar ôl gadael yr ysgol.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn darparu Llwybr Pontio Blwyddyn 12. Y nod yw galluogi myfyrwyr uchelgeisiol sydd ag ysgogiad da i barhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llwybr Pontio Blwyddyn 12 yn addas i'r myfyrwyr hynny a hoffai ddilyn cyrsiau Lefel 3 ond nad ydynt, yn anffodus, wedi cyrraedd lefel cyflawniad addas eto i'w galluogi i astudio cyrsiau Lefel 3 ym mlwyddyn 12.

Mae Astudiaethau Galwedigaethol wrth wraidd y cwrs ac mae datblygu mwy o ddealltwriaeth o amrywiaeth o feysydd Busnes yn ganolog i'r cwricwlwm. Drwy barhau i astudio'r pynciau craidd allweddol *(Cymraeg/Saesneg/Mathemateg)* mae disgyblion yn gallu ailsefyll arholiadau TGAU er mwyn gwella eu graddau TGAU os oes angen neu i barhau i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd os ydynt wedi cael TGAU graddau A*-C.

Disgwylir y bydd y myfyrwyr hynny sy'n dewis dilyn Llwybr Pontio Blwyddyn 12 yn dymuno parhau â'u hastudiaethau cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar

ddiwedd blwyddyn 12 trwy ddechrau cyrsiau Lefel 3 ym Mlwyddyn 13.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi datblygu cwricwlwm ôl-16 i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan eu galluogi i barhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ar yr un pryd cael eu paratoi'n effeithiol ar gyfer byd gwaith a bywyd ar ôl addysg ffurfiol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei deilwra i anghenion yr unigolyn ac fel arfer bydd yn cynnwys cwrs galwedigaethol a pharhad i ddatblygiad llythrennedd a rhifedd. Rhoddir pwyslais penodol ar feithrin mwy o ddealltwriaeth o sgiliau byw a chyfathrebu effeithiol.

O'r blaen roedd y cydweithredu rhanbarthol 14-19 cyfrwng Cymraeg yn manteisio ar gyllid ychwanegol trwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol, y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Rhanbarthol a'r grant oedd yn gysylltiedig â'r Fforwm Cyfrwng Cymraeg Rhanbarthol 14-19. Roedd y cyllid hwn yn ein galluogi i gynnal y Llwybrau Dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg mewn modd effeithiol ar draws y rhanbarth. Mae'n amlwg bod angen parhau â chyllid ychwanegol i lwybrau dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg er mwyn inni gynnal y sefyllfa bresennol yn y De-ddwyrain lle mae baich y ddarpariaeth ar ysgwyddau grŵp mor fach o sefydliadau.

Er na chafwyd unrhyw gyllid grant ychwanegol mae Fforwm 14-19 De-ddwyrain Cymru wedi penderfynu parhau i gwrdd er mwyn sicrhau y gall ysgolion cyfrwng Cymraeg a sefydliadau Addysg Bellach gydweithredu yn y dyfodol a bydd hyn yn ffurfio sail yr is-grŵp o dan y Fforwm Addysg Gymraeg .

Mae cynnal a chynyddu'r ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 14-19 oed yn gryn her i'r awdurdod gan fod y llwybrau 14-16 yn cael eu darparu erbyn hyn ar ddau safle ysgol 7 milltir oddi wrth ei gilydd. Rhaid gwarantu bod y ddarpariaeth yn gyfartal ar y ddau safle gan arwain at ddosbarthiadau bach ychwanegol a chostau staffio ychwanegol sylweddol.

Mae 1.68 athro ychwanegol wedi cael eu cyflogi i ddarparu ar gyfer y cwricwlwm di-graidd 14-16 ar ddau safle 7 milltir oddi wrth ei gilydd ar gyfer 2016-17 gan ddisgwyl y bydd o leiaf 3 athro ychwanegol ar gyfer 2017-18.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gynnig a darparu 30 o gyrsiau Lefel 3 cyfrwng Cymraeg yn unol â'r Mesur Sgiliau. Gan mai hi yw unig ddarparwr posibl addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg rhaid iddi barhau i ddarparu cyrsiau hyd yn oed pan fo nifer y myfyrwyr sy'n dewis y cwrs yn gwneud y cwrs yn anghynaladwy.

Bydd angen llwybr 14-19 cynaliadwy i'r holl ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod (ar ddau safle 7 milltir oddi wrth ei gilydd) erbyn mis Medi 2018. Hyn fydd sail yr adolygiad sy'n ofynnol. Bydd yr awdurdod ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithredu er mwyn sicrhau y gellir cynnal darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg cynaliadwy erbyn mis Medi 2018. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwynllyw wedi bod yn greadigol yn eu partneriaeth wrth i aelodau o'r staff deithio i addysgu cyrsiau amgen neu gyrsiau sydd â nifer fach o fyfyrwyr ond ar ôl i'r grant gael ei dynnu'n ôl, nid yw hyn yn ariannol hyfyw ac ni fydd byth oherwydd y niferoedd bach. Erbyn mis Medi 2019 bydd angen Llwybr Dysgu 14-19 cynaliadwy yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed (Casnewydd) ac erbyn mis Medi 2021 bydd angen Llwybr Dysgu 14-19 cynaliadwy. Nid yw'n ymarferol disgwyl i'r ysgol allu cynnig cwricwlwm cynaliadwy i'w disgyblion heb gydweithredu â darparwyr cyfrwng Cymraeg eraill. O

gofio bod cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus i gael ei weithredu erbyn mis Medi 2018 ni allwn fod yn sicr beth fydd y gofynion ar gyfer Llwybr Dysgu 14-19 cynaliadwy erbyn 2020. Mae'n amlwg ei bod yn hanfodol i unrhyw gynllunio yn y dyfodol ar gyfer strategaeth Llwybrau Dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg yn y De-ddwyrain ystyried ymagwedd gydweithredol er mwyn inni barhau i ddarparu llwybr cynaliadwy o ansawdd da.

Yn adolygiad yr awdurdod lleol o'r ddarpariaeth 14-19 caiff ymagwedd ranbarthol ei hystyried, lle gallai Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gydweithredu ag Ysgol Gyfun Gwynllyw (Torfaen) ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed (Casnewydd) wrth ddatblygu a hyrwyddo Llwybrau Dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg effeithiol, yn ogystal â chydweithio gyda Choleg y Cymoedd a Coleg Gwent. Hwn fydd blaenoriaeth y Fforwm Addysg Gymraeg Rhanbarthol drwy'r ia-grŵp ar gyfer darpariaeth 14-19.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ganolog i drefniadaeth a gweithrediad rhwydwaith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y De-ddwyrain (CYDAG De-ddwyrain Cymru). Mae CYDAG De-ddwyrain Cymru yn cynnwys 17 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws tri rhanbarth (Canolbarth y De, EAS ac ERW). Mae'r rhwydwaith yn trefnu diwrnodau HMS ar y cyd â CBAC i gefnogi a hybu cymwysterau 14-19 cyfrwng Cymraeg. Bydd y rhwydwaith yn parhau i gydweithredu â CBAC a bydd yn cyfathrebu â Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cymwysterau cyfrwng Cymraeg 14-19 yn cael ei chefnogi a'i gwella. Mae'r Fforymau 14-19 wedi dod i ben yn swyddogol, ond mae CYDAG De-ddwyrain Cymru yn dal i gwrdd i edrych ar y posibilrwydd o barhau ag arferion fel trefnu cynadleddau a chyfarfodydd cydweithredu i'r staff oedd yn bodoli hyd at fis Mawrth 2016. Bydd angen creadigrwydd ac ymroddiad i'w gwneud yn bosibl i'r fforwm llwyddiannus hwn barhau.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain y Rhwydwaith Dyfodol Llwyddiannus cyfrwng Cymraeg lle mae hyd at 40 o ysgolion ar draws Cymru'n cydweithredu o fewn y fframwaith rhanbarthol a chenedlaethol wrth ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Nod y rhwydwaith yw sicrhau y bydd gan yr holl aelodau ddealltwriaeth ddigonol o'r cwricwlwm newydd ac y byddant wedi cael digon o brofiadau datblygiadol i'w galluogi i gyflawni'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2018.

**Cysylltiadau â Choleg y Cymoedd**

Mae cydweithredu hirsefydlog ac effeithiol rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Choleg y Cymoedd. Mae Coleg y Cymoedd yn darparu hyfforddiant seiliedig ar waith mewn mecaneg ceir i ddisgyblion y Ganolfan Llwybrau Dysgu Cyfrwng Cymraeg ar gampws y Coleg yn Ystrad Mynach. Mae'r coleg wedi sicrhau cyllid Ewropeaidd i'r prosiect hyd 2020.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar sut i ddatblygu rhagor o weithio mewn partneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a staff o Goleg y Cymoedd. Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn aelod o Fforwm Llwybrau Dysgu 14-19 De-ddwyrain Cymru ac mae'n cwrdd â'r pennaeth a'r hwylusydd yn rheolaidd.

Mae'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd yn cysylltu â'r ysgol i alluogi'r disgyblion hynny sydd eisiau dilyn cyrsiau ôl-16 yn y coleg i bontio'n rhwydd a deall yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y coleg. I'r disgyblion hynny sy'n dewis mynychu'r coleg, mae geirfaoedd dwyieithog ar gael yn arbennig yn y pynciau STEM, i wneud y cyfnod pontio'n haws.

Yn y sector Addysg Bellach, nid yw'r broses gynllunio'r un peth ag mewn ysgolion/cynghorau. Mae'n rhaid i'r Coleg fynd trwy broses gynllunio strategol gyda'r AdAS a chael cymeradwyaeth yr AdAS am bopeth a wneir.

Un o'r blaenoriaethau presennol yw ymestyn ystod, math a lefelau'r cwrs Gofal Cwsmeriaid cyfrwng Cymraeg *Yr Iaith ar Waith* fel y gellir cynnig y cymhwyster ychwanegol hwn ar draws mwy o feysydd pwnc y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi'n feysydd i'w datblygu â blaenoriaeth, ar lefelau gwahanol ac mewn sgiliau gwahanol – siarad/darllen ac ysgrifennu.

Manylion ychwanegol o waith cydweithredol arfaethedig mewn perthynas â TGAU a datblygu darpariaeth brif ffrwd ddwyieithog o fewn meysydd Busnes, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Ngholeg y Cymoedd yn ystod 2017-2019.

**Ymateb Coleg y Cymoedd**
**Targedau ar gyfer 2017-18**

- Cynnig dosbarth ail-sefyll TGAU Mathemateg cyfrwng Cymraeg (yn amodol ar niferoedd digonol)
- Cynllunio a pharatoi 2 uned ddwyieithog o fewn cyrsiau Ysgol Busnes prif ffrwd er mwyn cynnig dewis i'n myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.
- I lansio cydweithrediad arloesol rhwng Coleg y Cymoedd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg RhCT a Chaerffili mewn partneriaeth draws-sectoraidd, drawsffiniol i ddarparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cyfrwng Cymraeg ar Lefelau 2 a 3 erbyn 2018-19 . Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cais am gyllid prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi elfennau o'r gwaith hwn. Gweler isod am bwyntiau Gweithredu a chyfnod amser y prosiect hwn;

**Partneriaeth 6:**
Cafodd y bartneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwynllyw (Partneriaeth 6) ei chyflwyno fel y bartneriaeth strategol 14-19 cyfrwng Cymraeg rhwng Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen yn 2006. Mae wedi bod yn bartneriaeth arloesi ddyfeisgar gan sicrhau Llwybrau Dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg effeithiol iawn. Roedd Partneriaeth 6 yn ddibynnol ar gyllid trwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol, y Cynllun Datblygu Rhwydwaith Rhanbarthol a grantiau 14-19 cyfrwng Cymraeg nad ydynt ar gael mwyach. Mae angen i Bartneriaeth 6 ganolbwyntio yn awr ar hybu a datblygu'r cwricwlwm ehangach yn unol â Dyfodol Llwyddiannus a datblygiadau pellach mewn Llwybrau Dysgu 14-19.

Byddwn yn ail-lansio Partneriaeth 6 ym mis Ionawr 2017 gyda'r nod o barhau i arwain strwythur cyfrwng Cymraeg arloesol rhagorol ar draws y De-ddwyrain.

Bydd y bartneriaeth rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gyfun Gwynllyw yn cael ei hatgyfnerthu trwy wahodd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i gydweithredu fel aelod o'r bartneriaeth. Bydd yr ysgolion cynradd sy'n bwydo pob un o'r ysgolion uwchradd yn aelodau cyswllt o'r bartneriaeth. Hefyd caiff Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ei gwahodd i ymaelodi â Chydbwyllgor Llywodraethwyr Partneriaeth 6.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cael ei chydnabod fel ysgol Arloesi ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus ac mae'n arwain Rhwydwaith Dyfodol Llwyddiannus Cyfrwng

Cymraeg Cymru Gyfan. Wrth gyflwyno'r cais i fod yn ysgol arloesi pwysleisiodd gryfder y bartneriaeth cyfrwng Cymraeg a gallu'r bartneriaeth i gydweithio mewn modd effeithiol wrth ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm. Bydd y bartneriaeth yn meithrin dealltwriaeth ehangach o anghenion y cwricwlwm yng Nghymru ar gyfer y dyfodol trwy gydweithredu ar draws yr ysgolion uwchradd a'u clystyrau.

Bydd Partneriaeth 6 yn cytuno ar dargedau ar gyfer cynyddu niferoedd disgyblion 14-19 cyfrwng Cymraeg trwy sicrhau bod y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o'r safon uchaf a bod y myfyrwyr yn cael cymwysterau ar y lefel uchaf posibl.

Bydd Partneriaeth 6 yn parhau i arwain strategaethau cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS):

- Y system addysg cyfrwng Cymraeg yn y De-ddwyrain i gael ei chydnabod yn genedlaethol fel enghraifft arloesol / ardderchog o arferion da.
- Disgwylir i ddisgyblion yn y bartneriaeth gael canlyniadau sy'n gymaradwy â'r gorau yng Nghymru.

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi cydweithio â Choleg y Cymoedd i gyflwyno unedau iaith Gymraeg yn Lefel 3 BTEC gyda staff Cwm Rhymni'n darparu'r cwrs yn y coleg. Gwaetha'r modd, 7 o ymgeiswyr oedd yn dymuno cofrestru ar y cwrs ac nid oedd y nifer hwnnw'n cael ei ystyried yn ddigon i barhau â'r cwrs. Mae'r cydweithio'n parhau gyda'r nod o ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg addas yn y coleg o Fedi 2019.

Ail-lansiwyd partneriaeth cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru oedd yn cael ei hadnabod yn flaenorol fel Partneriaeth 6 ym Medi 2018 gyda'r nod o barhau i arwain strwythur cyfrwng Cymraeg arloesol ac arbennig ar draws De Ddwyrain Cymru. Bydd y Bartneriaeth yn cynnwys Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.
Cyfeirir at y bartneriaeth fel partneriaeth cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru.

Bydd partneriaeth cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru'n parhau i arwain strategaethau cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth ar y cyd â'r awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA).

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni'n cydweithio ag Ysgol Gyfun Gwent Is Coed wrth iddynt baratoi i gyflwyno eu cwricwlwm 14-16 oed ar gyfer Medi 2019.

**Coleg y Cymoedd**

**Diweddariad ar gyfer targedau a osodwyd ar gyfer 2017-18**

- Cynnig dosbarth ail-sefyll Mathemateg TGAU cyfrwng Cymraeg (yn amodol ar niferoedd digonol) – Cyflawnwyd. Cynhelir hwn yng nghampws Nantgarw ac mae 7 wedi cofrestru.
- Cynllunio a pharatoi 2 uned ddwyieithog o fewn prif gyrsiau'r Ysgol Fusnes er mwyn cynnig dewis i'n myfyrwyr Cymraeg – Cyflawnwyd ond nid oedd unrhyw

ddysgwyr Cymraeg wedi cofrestru.

- Lansio cynllun cydweithio arloesol rhwng Coleg y Cymoedd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg RhCT a Chaerffili mewn partneriaeth traws sector, trawsffiniol i ddarparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cyfrwng Cymraeg ar Lefel 2 a 3 erbyn 2018-19. Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cais am gyllid gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol tuag at rai elfennau o'r gwaith hwn. Bu'r Coleg ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithio/hyfforddi staff/creu adnoddau a chynigiwyd Iechyd a Gofal Cymdeithasol L3 gydag opsiwn i ddilyn 3 o'r 9 uned drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwaetha'r modd nid oedd nifer ddigonol wedi cofrestru (5 o ddysgwyr) ond bydd y gwaith cynllunio'n parhau i gynnig y cymwysterau newydd ar y cyd.

- Ehangu'r ddarpariaeth Iaith ar Waith i gynnwys dysgwyr o gyrsiau Adeiladu a Pheirianneg (yn gystal â'r ddarpariaeth a gynigir o fewn Gofal Pant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwyo, Busnes, Teithio a Thwristiaeth a Diwydiannau Creadigol) – Cyflawnwyd. Ehangwyd ar y ddarpariaeth i gynnwys meysydd newydd Adeiladu a Pheirianneg yn ogystal â'r holl feysydd allweddol eraill y nodir uchod. Llwyddodd 364 o ddysgwyr i gwblhau uned IAW o E3 i L2. Y targed ar gyfer 2018-19 yw ehangu'r ddarpariaeth i 10 maes dysgu yn cynnwys Trin Gwallt a Harddwch.

Mae Coleg y Cymoedd wedi diweddaru ac ymestyn eu targedau yn 2018 i gynyddu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg.

- Cynnig cymhwyster y Fagloriaeth Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr yng Nghanolfan Lefel A y Coleg. Diweddariad :Ym Medi 2018, recriwtiodd y Coleg 12 o fyfyrwyr i flwyddyn AS ddwyieithog y Fagloriaeth Gymraeg a 6 o fyfyrwyr i flwyddyn A2 ddwyieithog y Fagloriaeth Gymraeg. Gwneir y gwaith yn yr ystafell ddosbarth yn Gymraeg gyda rhai o heriau'r grŵp yn ymwneud â gweithio gyda grwpiau allanol, yn cael eu cynnal yn Saesneg.
- Mae'r Coleg yn cynnal dosbarth ail-sefyll TGAU Mathemateg Cyfrwng Cymraeg yn ei gampws Nantgarw.

Bu'r Coleg yn gweithio'n ddwyieithog gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i baratoi ar gyfer cyflwyno opsiwn dwyieithog o'r cwrs Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 3 ym Medi 2018. Nid oedd y niferoedd a gafodd eu recriwtio'n ddigonol ac felly ni chafodd yr opsiwn dwyieithog ei gynnal. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn awyddus iawn i gydweithio gyda'r ysgol eto i gynnig y cymwysterau gofal newydd o dan Gorff Dyfarnnu City and Guilds a CBAC fydd ar gael o fis Medi 2019.

**Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

| Y sefyllfa bresennol | 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 |
|---|---|---|---|
| Cymraeg:<br>1 myfyriwr wedi'i gofrestru ar gwrs Lefel UG yn CA5 yn 2015<br>3 myfyriwr wedi'u cofrestru ar gyrsiau Lefel A yn CA5 yn 2015<br><br>Cymraeg Ail Iaith: | 4 | 5 | 6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 myfyriwr wedi'u cofrestru ar gyrsiau Lefel UG yn CA5 yn 2015<br>19 myfyriwr wedi'u cofrestru ar gyrsiau Lefel A yn CA5 yn 2015 | | | |

Bydd targedau ystyrlon ar gyfer disgyblion yn cyflawni TGAU Cymraeg ail iaith yn cael eu cynnwys yn y diweddariad ym mis Rhagfyr 2017. Cafwyd oedi oherwydd newidiadau mewn cymwysterau a gyflwynwyd a'r angen am osod targedau ystyrlon gydag ysgolion yn ystod y cyfnod pontio hwn. Mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg rôl a chyfrifoldeb wrth gyflwyno'r Grant Gwella Addysg a darparu her ddigonol i ysgolion. Felly eu cyfrifoldeb yw gosod targedau priodol gydag ysgolion i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at y targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ein pum amcan er mwyn cyflawni'r deilliant hwn yw:

1. Gwella safonau llythrennedd ar y +1 disgwyliedig ym mhob Cyfnod Allweddol ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf i gael effaith ar y perfformiad TGAU A*-A gan arwain at niferoedd uwch ar gyfer Lefel A.
2. Cynyddu niferoedd Lefel UG/A mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a mynd ati i gydweithredu i sicrhau y gall disgyblion ddilyn cwrs Cymraeg Ail Iaith Lefel UG/A.
3. Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gynyddu'r ddarpariaeth ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yn CA3 a CA4 fel bod y ganran sy'n dilyn Cwrs Llawn TGAU yn codi o 42% (llinell sylfaen 2015) a bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio'n helaeth fel cyfryngau cyfathrebu
4. Annog ysgolion cyfrwng Saesneg i gofrestru bron pob disgybl ar Gwrs Cymraeg Llawn TGAU pan gaiff y Cwrs Byr presennol ei dynnu'n ôl yn 2018 (ar hyn o bryd nid oes yn rhaid i ddisgyblion gael eu cofrestru ar gyfer unrhyw arholiad Cymraeg Ail Iaith) a chynllunio ar gyfer gweithredu Dyfodol Llwyddiannus i sicrhau cymhwysedd rhyngweithredol i bob disgybl 16 oed.
5. Annog Cymwysterau Cymru a CBAC gyda chymorth Llywodraeth Cymru i ddarparu ystod addas o gymwysterau Cymraeg Iaith Gyntaf Lefel 3.

Mae'r perfformiad mewn Cymraeg Iaith Gyntaf / llythrennedd yn gryf yn y Cyfnod Sylfaen a CA2; mae'r perfformiad yn well na pherfformiad Cymru ar y lefel ddisgwyliedig yn y ddau gyfnod allweddol. Er mwyn cynnal a pharhau i wella, yn enwedig deilliannau ar y +1 disgwyliedig, gall ysgolion fanteisio ar amrywiaeth o raglenni llythrennedd a DPP Cymraeg trwy eu hymwneud â rhwydwaith llythrennedd rhanbarthol EAS a chymorth uniongyrchol gan gynghorydd llythrennedd Cymraeg (CS-CA4). Mae'r rhaglenni sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys menter '*Cyfathrebu'n Gyntaf*' ar gyfer llythrennedd yn y Cyfnod Sylfaen a rhaglenni '*Ar Lafar*', '*Y Darllenwr Dygn*', '*Ditectifs Darllen*' a '*Seiliau Sgrifennu*' sydd i gyd wedi'u bwriadu i ddatblygu llythrennedd ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad ar draws yr holl gyfnodau. Mae cymorth ysgol i ysgol strwythuredig ar gael i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth trwy drefniadau cymorth llythrennedd consortiwm y De-ddwyrain gydag ysgolion arweiniol ar gyfer llythrennedd yn arwain agweddau ar y rhaglenni DPP cynlluniedig a nodir. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ysgol Arloesi'r Cwricwlwm a'r Fargen Newydd a fydd hefyd yn arwain a chefnogi'r gwaith o ddatblygu llythrennedd ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â dull trylwyr o asesu ar gyfer dysgu ac asesu dysgu, gan gynnwys cymedroli mewnol ac ar lefel clystyrau, bydd mabwysiadu menter y *Siarter Iaith* o fis Medi 2016 ymlaen yn cynorthwyo ysgolion i wella hyder a chymhwysedd disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi, gan alluogi ysgolion i gynnal eu deilliannau da. Bydd ysgolion cynradd yn cyflawni safon aur y *Siarter* erbyn mis Gorffennaf 2019 a bydd ysgolion uwchradd yn cymryd rhan yn y prosiect Cefnogi Arferion Pobl Ifanc o hydref 2016 ymlaen.

Mae'r perfformiad mewn Cymraeg Ail Iaith yn CA2 yn gryf ond mae'r perfformiad yn CA3 yn waeth na pherfformiad Cymru. Bydd yr EAS yn monitro'r ddarpariaeth yn CA3 a CA4 ac yn adrodd i'r Cynghorwyr Herio a'r ALI ar ddyrannu amser a statws niferoedd grwpiau opsiynau bob blwyddyn.

Bydd ysgolion uwchradd yn cael eu hannog i ddarparu digon o amser i astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn unol â'r TGAU Cymraeg newydd a gaiff ei haddysgu o fis Medi 2017 ymlaen ac â gofynion y cwricwlwm newydd i sicrhau cymhwysedd rhyngweithredol ar ddiwedd CA4 i bob disgybl ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Cymraeg Cwrs Byr fydd yr unig TGAU a gynigir o 2018 ymlaen wedi i Gymraeg Cwrs Byr gael ei dynnu'n ôl, a fydd yn darparu sylfaen gadarnach ar gyfer symud ymlaen i Lefel UG a Lefel A. Fodd bynnag, bydd statws di-graidd presennol y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau tan 2021. Rhaid i ddisgyblion astudio'r Gymraeg hyd nes eu bod yn 16 oed ond nid oes gofyniad iddynt sefyll arholiad allanol yn Gymraeg. Bydd hyn yn parhau i fod yn rhwystr mawr i dwf astudio'r Gymraeg i Lefel A.

Mae llawer yn dweud bod yr arholiadau presennol sydd ar gael i fyfyrwyr 16-19 oed, yn arbennig ar gyfer y Gymraeg, yn fwyaf priodol i'r myfyrwyr mwy academaidd. Mae hyn wedi cael effaith ar y nifer sy'n eu sefyll. Mae Caerffili'n croesawu'r cyfle i ofyn i Cwricwlwm Cymru adolygu'r ystod o gymwysterau ar gyfer y Gymraeg er mwyn sicrhau apêl ehangach a gwneud cyrsiau Cymraeg yn berthnasol i fyd gwaith heddiw. Er enghraifft, byddai gan gwrs galwedigaethol Lefel 3 mewn Cymraeg Proffesiynol apêl eang a byddai nifer fawr yn ei ddilyn.

Nid yw'r targed i gynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n cael Lefel A Cymraeg yn darged perthnasol neu gyflawnadwy i'w ystyried yng nghyd-destun ein hangen lleol o gofio'r cymhwyster presennol sydd ar gael. Cydnabyddir mai'r cwrs Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf yw un o'r pynciau Lefel A mwyaf academaidd sy'n cael eu hastudio, ac felly mae'n anodd annog myfyrwyr abl i astudio'r cwrs pan maent yn ymwybodol o'r gofynion academaidd o gymharu â'r pynciau Lefel A eraill.

Mae'r Gymraeg yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a byddai twf sylweddol yn y nifer yn astudio cwrs Cymraeg Lefel 3 pe bai ystod o gyrsiau addas ar gael. Gall ysgolion gynnig cyrsiau Lefel A mewn Saesneg Iaith, Saesneg Iaith a Llenyddiaeth a Llenyddiaeth Saesneg, ond dim ond un cwrs Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf y gall ysgolion cyfrwng Cymraeg ei gynnig. Mae'n amlwg bod diffyg cydraddoldeb sylfaenol yn y ddarpariaeth cymwysterau Lefel A i'r Gymraeg yng Nghymru o gymharu â'r Saesneg.

Wrth ystyried sut mae dysgwyr yn cael eu paratoi ar gyfer y gweithle yng Nghaerffili a rhanbarth y De-ddwyrain mae angen inni ystyried mwy o gyfleoedd i'n pobl ifanc 16-19 oed fanteisio ar gyrsiau perthnasol a fydd yn eu paratoi ar gyfer byd gwaith ac i

ddefnyddio'r Gymraeg yn yr amgylchedd gweithio. Credwn fod angen inni ddatblygu ystod o gyrsiau Lefel 3 addas i fyfyrwyr sydd eisiau parhau i astudio'r Gymraeg a gallu defnyddio'r iaith yn y gweithle ond na allant ymdopi â gofynion academaidd iawn y cwrs Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf presennol. Gallai'r cyrsiau hyn fod yn rhai galwedigaethol gydag unedau penodol ar ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu'n effeithiol yn y gwaith.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i ddarparu cwrs iaith mewnol, ar-lein wedi'i bersonoli i wella ymhellach safonau llythrennedd Cymraeg y staff ar bob lefel yn yr ysgol. Mae Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn defnyddio hyn i adnabod anghenion y staff am ragor o hyfforddiant, gan sicrhau bod y disgyblion yn cael eu haddysgu gan athrawon sy'n fodelau iaith da. Mae'r strategaeth ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd y staff wedi profi'n effeithiol iawn. Mae unigolyn â gradd yn y Gymraeg wedi cael ei benodi i hwyluso'r strategaeth trwy gynorthwyo i fentora'r staff a chynorthwyo'r staff trwy fonitro safon ieithyddol taflenni gwaith a chyflwyniadau. Mae'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo hefyd yn manteisio ar y cyfleuster hwn.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn parhau i fod yn ysgol rhwydwaith arweiniol ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern yn rhanbarth y De-ddwyrain (gydag Ysgol Gyfun Coed Duon) ac yn cael buddsoddiad sylweddol i hybu astudio ieithoedd. Mae datblygu llythrennedd triphlyg yn ganolog i'w gwaith.

Bydd grwpiau lleol Urdd Gobaith Cymru a'r Fenter Iaith yn cydweithio ag ysgolion a'r gymuned i ddarparu cyfleoedd i arfer eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Bydd disgyblion o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn gallu achub ar amrywiaeth o gyfleoedd i arfer eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau ffurfiol a heb fod yn ffurfiol.

Mae Urdd Gobaith Cymru'n cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon â chysylltiadau ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, nofio, gymnasteg, rygbi tag a chriced. Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cynnig cyfle i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys canu, dawnsio ac adrodd. Ceir teithiau preswyl i'r tair canolfan yn Llangrannog, Glan-llyn a Chaerdydd.

I ysgolion uwchradd mae Swyddog Ieuenctid Cymraeg yn gweithio yn yr ardal gyda swyddfa yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, a gyd-ariennir trwy'r Urdd, y Fenter Iaith a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n cynorthwyo â'r clybiau wythnosol yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ogystal â digwyddiadau chwaraeon ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ynghyd ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a theithiau preswyl cafwyd teithiau i wledydd tramor gyda disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i Disneyland Paris a Sbaen a Fforwm Ieuenctid Cymraeg. Bwriedir cynnal amrywiaeth o deithiau dydd ar draws ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn ogystal â chyfleoedd i wirfoddoli ac achrediad i gynorthwyo pobl ifanc i ddefnyddio ac arfer y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Hefyd mae'r Swyddog Ieuenctid yn cefnogi clwb wythnosol yn YMCA Bargod a gwaith ymgynghori.

**Urdd**

Mae gweithgareddau'r Urdd yn cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ar hyn

o bryd rydym yn cynnal Clwb Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system cyfeillio gyda nhw.

Fel y soniwyd uchod, mae holl weithgareddau'r Urdd ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Mae Ysgolion Cynradd ac Uwchradd o Gaerffili yn mynd ar deithiau preswyl i Langrannog, Glan-llyn a Chaerdydd.

Hefyd mae nifer dda o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn mynychu ein gweithgareddau chwaraeon a'r Eisteddfod.

Mae ein teithiau i Disney a Sbaen hefyd yn boblogaidd iawn ymysg pobl ifanc o Gaerffili.

Mae grŵp o ddisgyblion 6ed dosbarth o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi gwirfoddoli i'n helpu ar deithiau preswyl, gweithgareddau dydd ac maent wedi arwain ein clybiau chwaraeon drwy'r sir.

Mae ein swyddog Ieuenctid hefyd wedi gweithio gyda Choleg Gwent - Campws Cross Keys

**Gwasanaeth Cyflawni Addysg (consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion) Ffocws ar Gymraeg Ail Iaith 2017-2018**

- Mae cefnogaeth gan ymgynghorwyr Cymraeg arbenigol ar gael i ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd penodol.
  Blaenau Gwent: 5 ysgol gynradd, 2 ysgol uwchradd
  Caerffili: 9 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd
  Sir Fynwy: 3 ysgol gynradd
  Casnewydd: 5 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd
  Torfaen: 7 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd
  Caiff effaith y gefnogaeth a'r ymyrraeth ym mhob ysgol ei monitro a'i hadrodd i'r holl ALlau bob tymor.
- Mae cefnogaeth ymgynghorydd her ym mhob ysgol yn cefnogi'r broses fonitro a gosod targedau.
- Mae cefnogaeth ysgol-i-ysgol ar gael i bob ysgol drwy Rwydwaith Dysgu Ysgolion ar gyfer Cymraeg Ail Iaith (**Cynradd:** Ysgol Gynradd Machen, Caerffili; Ysgol Gynradd Clytha, Casnewydd; **Uwchradd:** Ysgol Caldicot, Sir Fynwy; Ysgolion King Henry, Sir Fynwy)
- Mae GCA yn monitro a dilysu cymedroli clwstwr ar ran yr ALlau. Ar draws y GCA, ar gyfer Cymraeg Ail Iaith, ni chytunwyd ar 29 proffil o 20 ysgol yn y broses cymedroli clwstwr. Cynhaliwyd gwaith dilynol gan Ymgynghorwyr Her, fel yr amlinellir ym mhroses gymedroli clwstwr y GCA a gan Swyddogion Cymraeg mewn Addysg y GCA fel y bo'n briodol.
- Mae 5 Swyddog Addysg ALl wedi cefnogi neges ranbarthol i bob ysgol uwchradd, sef bod disgwyl i ysgolion baratoi a chofrestru disgyblion ar gyfer y Cwrs Llawn yn unol â newidiadau i'r fanyleb TGAU. Mae targedau ar gyfer Cymraeg Ail Iaith yn cael eu casglu (hydref 2017) a byddant ar lefel disgybl unigol o hydref 2018. Datblygwyd a rhannwyd adnoddau a hyfforddiant ar gyfer y TGAU newydd (mewn partneriaeth ag Ysgolion Rhwydwaith Arweiniol a chonsortia eraill. Llwyfan HWB y GCA ar gyfer ysgolion uwchradd.
- Siarter Iaith Campws Cymraeg. Mae cefnogaeth ymgynghorwyr Cymraeg

arbenigol ar gael i nifer o ysgolion ym mhob ALI. Mae'r GCA yn bwriadu cyflwyno hyn yn ehangach yn y tair blynedd nesaf.

| | |
|---|---|
| Greenhill | Caerffili |
| Trinant | Caerffili |
| Penllwyn | Caerffili |
| Aberbargod | Caerffili |
| Machen | Caerffili |
| Y Twyn | Caerffili |
| Hendredenny | Caerffili |
| Cefn-y-pant | Caerffili |
| Pengam | Caerffili |
| Trelyn | Caerffili |
| Rhiw Syr Dafydd | Caerffili |
| Ysgol Iau Hendre | Caerffili |
| Abercarn | Caerffili |
| Cwmaber | Caerffili |
| Crymlyn | Caerffili |
| Maesycwmer | Caerffili |
| Bryn | Caerffili |

- Mae'r GCA wedi comisiynu pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i weithredu hybiau iaith Gymraeg, gan gysylltu gwaith y Siarter a'r Campws Cymraeg a darparu cefnogaeth ar gyfer iaith a diwylliant. Y targed ar gyfer 2016-17 yw 33% o ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda chynnydd o draean bob blwyddyn wedi hynny.
- Mae fframwaith dwyieithog ar gyfer defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu gan ysgolion uwchradd LNS i'w rannu gyda phob ysgol yn 2018-19.

**Menter Iaith Sir Caerffili**

Mae Menter Iaith Caerffili'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerffili i bob oed a'i gwneud yn iaith sy'n rhan o wead cymdeithasol y sir trwy alluogi pobl i fyw a gweithio yn Gymraeg.

Mae'r Mentrau Iaith yn sefydliadau dynamig, gwirfoddol, cymunedol sy'n hybu'r defnydd o Gymraeg drwy Gymru. Mae Menter Iaith Caerffili'n gweithio ar draws cymunedau Caerffili i gynyddu'r defnydd o Gymraeg gan bob oed trwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol, gweithio mewn partneriaeth â busnesau a chyrff lleol i wneud Cymraeg yn fwy hygyrch i bawb yn y sir, darparu gofal plant cyfrwng Cymraeg cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg, darpariaeth i bobl ifanc, dosbarthiadau Addysg i oedolion, gweithgareddau Gwyliau i blant a phobl ifanc, cefnogaeth Gymraeg i ddarparwyr gofal plant, ymgynghoriaeth a hyfforddiant. Ceir crynodeb isod o'r ddarpariaeth bresennol:

- Mae'r Fenter Iaith yn gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion ALI mewn nifer o leoliadau gofal plant i wella darpariaeth Gymraeg ar draws y fwrdeistref. Mae trefniadau cytundebol presennol yn eu lle hyd at 31 Mawrth 2020.
- Hefyd comisiynwyd y Fenter Iaith 92014-17) i archwilio a chynnig cymorth pellach i ddatblygu adnoddau Cymraeg a sgiliau Cymraeg ar draws y sector.

Yn y cytundeb presennol mae pwyslais ar ddatblygu'r Llwybr i Ddwyieithrwydd, fydd yn nodi lefel y Gymraeg, anghenion cymorth ac yn datblygu cynllun gweithredu i wella'r Gymraeg ar draws pob lleoliad.

- Parhau i gefnogi'r Awdurdod Lleol i ymgynghori â rhieni/gofalwyr lleol o ran y CSA a phenderfynu ynghylch y galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg drwy'r fwrdeistref.
- Parhau i gefnogi a datblygu ei darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg:
  - 2 Glwb Brecwast
  - 3 Glwb Gwyliau
  - 6 Clwb Meithrin (gofal cofleidiol)
  - 7 Clwb Carco

Mae Menter Caerffili hefyd yn darparu rhaglen amrywiol o gyfleoedd a gwasanaeth ar gyfer ystod o oedrannau yn cynnwys y canlynol:

- Amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol, gweithdai, hyfforddiant a gweithgareddau i blant a phobl ifanc gyda phartneriaid lleol, yn dibynnu ar adnoddau a chyllid digonol a'r gwahanol gyfleoedd sy'n codi yn ystod cyfnod y cynllun.
- Parhau i gynnal asesiad anghenion gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i fapio cyfleoedd Cymraeg cymdeithasol presennol yn y ddinas a chreu strategaeth ar y cyd â phartneriaid lleol i geisio llenwi'r bylchau a pharhau i ysgogi darpariaeth gymdeithasol. Cydlynu'r strategaeth hon drwy'r Fforwm Iaith Gymraeg a fforymau lleol perthnasol eraill ac fel rhan o strategaeth 5 mlynedd Bwrdeistref Caerffili i hybu'r Gymraeg ar draws y fwrdeistref.
- Ymateb i ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol ar faterion yn ymwneud â'n gwaith fel Menter Iaith leol yng Nghaerffili sy'n cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i unrhyw un sy'n awyddus i gael mwy o wybodaeth am yr iaith Gymraeg a sut i gael mynediad at yr iaith yng Nghaerffili.
- O Fedi 2018, sesiwn Gymraeg Sblash a Chân yng Nghanolfan Hamdden Caerffili mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- O Fedi 2018, sesiwn ymarfer i rieni a babanod gyda phramiau yn y parc.

**Y Siarter Iaith**

Yn ystod 2018-19, bydd staff Menter Caerffili yn parhau i gefnogi'r 11 ysgol gynradd Gymraeg yn eu hymrwymiad i'r Siarter Iaith sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol ond hefyd o fewn y gymuned. Yn ogystal â chefnogi ysgolion gyda phrosiectau o fewn yr ysgol, mae Menter Caerffili wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a theuluoedd er mwyn hybu cyfleoedd o fewn y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal ag ymateb i anghenion penodol o fewn ysgolion unigol.

Un prosiect allweddol sydd wedi cefnogi'r Siarter Iaith yn ystod y flwyddyn yw ein clybiau gemau fideo a gweithdai o fewn ysgolion cynradd, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn ystod y gwyliau o fewn cymunedau lleol. Mae'r prosiect hwn wedi ymateb i ddiddordebau plant a phobl ifanc ac wedi darparu llwyfan ar-lein cyfrwng Cymraeg i ddod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc eraill sy'n siarad Cymraeg ar draws y

fwrdeistref.

Bydd y Fenter Iaith yn parhau i chwilio am ffynonellau ariannol pellach i gynnal y gwahanol ddarpariaethau a nodwyd.

Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn darparu nifer o gyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol o fewn nifer o weithdai a chlybiau yn ystod tymhorau a gwyliau ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y cyfleoedd canlynol a ddarperir gan y Fenter Iaith:

- Sgwad Sgwennu bob tymor
- Gweithdai Celf a Chrefft, coginio yn ystod pob gwyliau ysgol
- Sesiynau Miri Meithrin yn ystod pob gwyliau ysgol - sesiynau chwarae gydag amryw o weithgareddau a stondinau gwybodaeth i rieni a phlant.
- Gweithgareddau yn yr awyr agored mewn parciau lleol
- Gweithdai mewn partneriaeth â'r Tŷ Weindio, Tredegar Newydd
- Grŵp perfformiad wythnosol, Canadram ar gyfer plant oed cynradd

Mae'r ddarpariaeth a'r bartneriaeth hon yn barhaus ac mae'r rhaglen yn dal i ddatblygu. Fodd bynnag mae cyllid ar gyfer y cyfleoedd hyn wedi'i gyfyngu ac mae'n dibynnu ar allu'r Fenter Iaith i sicrhau ffynonellau ariannol. Bydd y Fenter Iaith yn parhau i chwilio am ffynonellau ariannol pellach i gynnal y ddarpariaeth.

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**

Mae YGCRh yn cydweithio â'r GCA er mwyn i'w chwrs personol, mewnol, ar-lein fod ar gael drwy'r rhanbarth.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithio gyda chwech o ysgolion (Cwm Rhymni, Gwent Is Coed, Gwynllyw, Risca, John Frost a Lliswerry) i sefydlu Datblygiad Proffesiynol Cymraeg cydweithredol yn unol â'r Strategaeth Dyfodol Llwyddiannus ar gyfer datblygu ysgolion hwb cyfrwng Cymraeg.

**Yr Urdd**

Mae gweithgareddau'r Urdd yn cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal Clwb Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system cyfeillio gyda nhw.

Fel y soniwyd uchod, mae holl weithgareddau'r Urdd ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg - mae Ysgolion Cynradd ac Uwchradd o Gaerffili yn mynd ar deithiau preswyl i Langrannog, Glan-llyn a Chaerdydd. Hefyd mae nifer dda o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn mynychu ein gweithgareddau chwaraeon a'r Eisteddfod.

Mae ein teithiau i Baris a Chatalunya hefyd yn boblogaidd iawn ymysg pobl ifanc o Gaerffili (bu dros 100 ar y ddwy daith yn ystod 2018).

Mae pobl ifanc o Flynyddoedd 12 a 13 yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gwirfoddoli i'n helpu ar deithiau preswyl, gweithgareddau dydd ac maent wedi arwain ein clybiau chwaraeon drwy'r sir.

Roedd un person ifanc o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn rhan o'n prosiect gwirfoddoli Cymraeg rhyngwladol ym Mhatagonia.

Mae gan yr Urdd fforwm ieuenctid Cymraeg, gyda 2 yn mynychu'r fforwm ieuenctid cenedlaethol, Bwrdd Syr Ifanc.

**Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Ein hamcanion er mwyn cyflawni'r deilliant hwn yw:

1. Datblygu fforwm ADY arbenigol Cymraeg rhanbarthol fel is-grŵp i Fforwm rhanbarthol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gefnogi arferion gorau a dymchwel rhwystrau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.
2. Cynnal archwiliad o weithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith ar draws y rhanbarth er mwyn paratoi ar gyfer y fforwm arbenigol rhanbarthol.
3. Gwerthuso effaith Diwygio ADY a'r Cod Ymarfer newydd.

Mae **darpariaeth arbenigol Ysgolion Cynradd** wedi bod yn darparu gwasanaeth llwyddiannus am gyfnod hir. Yn unol â Pholisi AAA Caerffili mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliadau prif-ffrwd. Gall disgyblion oedran cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael cyngor a chymorth gan amrywiaeth o wasanaethau arbenigol. Mae Athro Ymgynghorol, Seicolegydd Addysg a thri Athro Arbenigol yn siarad Cymraeg. I ddisgyblion oedran cynradd sydd ag anghenion mwy cymhleth mae canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Cwm Derwen.

Datblygwyd a darparwyd **darpariaeth arbenigol Ysgolion Uwchradd** yn ystod 2016/17 i fynd i'r afael â'r bwlch a nodwyd yn flaenorol.

Mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y cydnabyddir ei bod yn effeithiol iawn wrth ddeall anghenion yr holl ddisgyblion ag ADY cyn iddynt ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol. Mae disgyblion sydd ag ADY yn manteisio ar drefniadau pontio hirsefydlog ardderchog rhwng yr ysgolion cynradd sy'n bwydo â'r adran gan sicrhau pontio didrafferth i'r plant mwyaf bregus.

Gall yr ysgol fanteisio ar asesiadau a chymorth seicoleg addysg, cymorth ymddygiad, athro ymgynghorol, athro anawsterau dysgu penodol, therapydd iaith a lleferydd a gwasanaethau eraill. Ar hyn o bryd mae'r athro ymgynghorol a Seicolegydd Addysg sydd newydd ei benodi yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, maent i gyd yn cynorthwyo ac yn hyfforddi'r staff cyfrwng Cymraeg gan alluogi'r staff cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo a meithrin ein plant mwyaf bregus mewn modd effeithiol.

Mae'r cyfleusterau yn yr Adran ADY yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni (safle Gelli Haf) yn cynnwys amrywiaeth o ystafelloedd, un ohonynt wedi'i dynodi'n ystafell ystyriol o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig.

Mae tair elfen wahanol i'r Adran ADY yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni:
Anghenion Cymhleth

- Y Ganolfan
- Hafan
- Anghenion Dysgu Ychwanegol Cyffredinol

Mae gan yr adran uned anghenion cymhleth hirsefydlog (Y Ganolfan). Diben y Ganolfan yw cynnig cymorth gwahaniaethol ac unigoledig i ddisgyblion fanteisio ar gymaint o'r cwricwlwm ag sy'n bosibl. Mae'r Ganolfan yn rhoi iddynt amgylchedd diogel, hapus a meithringar lle mae'r cymorth yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau annibynnol a sgiliau cymdeithasol a gwella hunan-dyb y disgyblion. Mae'r Ganolfan yn fan dawel, ac mae'r pwyslais ar wobrwyo disgyblion am eu cyflawniadau. Mae'r Ganolfan yn rhedeg 'Rhaglen Defnyddio Iaith yn Gymdeithasol' lwyddiannus iawn i'r disgyblion hynny sydd angen gwella eu sgiliau cyfathrebu.

Mae'r adran wedi sefydlu darpariaeth i gynorthwyo ein plant y canfuwyd bod ganddynt anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth. Mae'r Hafan yn cynnwys ystafell sydd wedi'i chynllunio'n arbennig ac yn cael ei staffio gan athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu hyfforddedig a phrofiadol. Mae'r ddarpariaeth yn unigoledig iawn a'i nod yw nodi a gwella datblygiad emosiynol y dysgwyr trwy addysgu ymddygiadau sy'n fwy derbyniol yn gymdeithasol. Mae'r dysgwyr yn mynd i'r Hafan am ran o'r dydd ac yn treulio gweddill y dydd yn eu dosbarth 'arferol'. Mae hyd yr amser maent allan o'u dosbarthiadau'n dibynnu ar y dysgwr unigol a'i anghenion.

Mae dysgwyr â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth yn y dosbarth ac mewn gweithgareddau cymorth ychwanegol. Mae'r myfyrwyr hyn hefyd yn cael eu monitro, adolygu a chymorth rheolaidd a gosodir targedau ar gyfer gwella trwy Gynlluniau Addysg Unigol a Chynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Mae myfyrwyr eraill sydd ag anghenion ychwanegol wedi'u nodi'n cael eu cynorthwyo a'u monitro'n rheolaidd trwy Gynlluniau Addysg Unigol a Chynlluniau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Mae gan yr ysgol strategaeth sgiliau sylfaenol sydd â'r nod o hyrwyddo a datblygu sgiliau llythrennedd y disgybl. Mae'n gwneud hyn trwy gynnig cwricwlwm ehangach o weithgareddau sy'n cynnwys y cwricwlwm hanes, daearyddiaeth ac astudiaethau crefyddol a chanolbwyntio ar fireinio eu sgiliau iaith. Yn ddiau mae'r cwrs yn cryfhau sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig y disgybl. Mae'r disgyblion yn dod yn ymwybodol o bwysigrwydd nodweddion penodol iaith fel atalnodi a pharagraffau, nid yn unig mewn perthynas â'r Gymraeg a'r Saesneg, ond hefyd mewn perthynas â'r pynciau unigol. Mae'r disgyblion yn sylweddoli bod pob pwnc yn galw am sgiliau iaith o'r un lefel. Mae'r adran ADY yn cynorthwyo â gwaith Sgiliau Sylfaenol Cyfnod Allweddol 3, gan gysylltu â'r strategaeth Cyfnod Allweddol 3 gyffredinol sydd wedi canolbwyntio ar amrywiaeth fawr o ddatblygiadau. Roedd y rhain yn cynnwys tynnu myfyrwyr Blynyddoedd 7, 8 a 9 allan o'r dosbarth ar gyfer gwaith llythrennedd a/neu rifedd ychwanegol.

Mae disgyblion ADY yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dilyn amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol, gan eu galluogi i gymryd rhan yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol. Cynhelir cysylltiadau clos gyda Gyrfa Cymru a darparwyr addysg ôl-16.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm ôl-16 i ddisgyblion ADY gan eu galluogi i barhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ar yr un pryd cael eu paratoi'n effeithiol ar gyfer byd gwaith a bywyd ar ôl addysg ffurfiol. Mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn ac fel arfer bydd yn cynnwys dilyn cwrs galwedigaethol a pharhau i ddatblygu llythrennedd a rhifedd.

Rhoddir pwyslais penodol ar feithrin mwy o ddealltwriaeth o sgiliau byw a chyfathrebu effeithiol.

Mae’r rhwydwaith ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi sefydlu cymuned dysgu broffesiynol drawsranbarthol o amgylch y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, dan arweiniad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Mae’r Adran ADY ac yn arbennig y ddarpariaeth anghenion cymhleth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gynradd Cwm Derwen yn fodel o’r arferion gorau a gellid ei datblygu’n rhanbarthol gyda chydweithrediad oddi wrth yr awdurdodau eraill.

Mae gweithwyr ADY proffesiynol profiadol ac effeithiol iawn weddi'u dosbarthu ar draws y rhanbarth, mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Synhwyraidd a Chyfathrebu rhanbarthol. Mae'r grŵp ADY rhanbarthol o arbenigwyr awdurdodau lleol a’r Gwasanaeth Cyflawni Addysg eisoes wedi cyfarfod i ddechrau archwilio arbenigedd ac ymagweddau rhanbarthol. Caiff hyn ei ffurfioli a'i wella i ffurfio is-grŵp y Fforwm Addysg Gymraeg rhanbarthol gyda'r ffocws ar adeiladu ar yr arferion gorau presennol ac ymarferwyr arbenigol i ddatblygu ateb rhanbarthol ar y cyd i sicrhau bod pob plentyn ag ADY yn cael ei gefnogi yn eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae **Ysgol Gyfun Cwm Rhymni** yn arwain y cydweithio ar draws y Clwstwr i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nod y cydweithio yw sicrhau bod y clwstwr wedi paratoi’n llawn ar gyfer gweithredu’r ddeddfwriaeth newydd.

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**

Mae’r cydlynydd anghenion addysgol arbennig yn parhau i gydlynu’r gwaith cydweithredol ar draws ysgolion y dalgylch i baratoi ar gyfer cyflwyno’r ddeddfwriaeth newydd.

Mae Partneriaeth Cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru (Cwm Rhymni, Gwynllyw a Gwent Is Coed) yn cydweithio i ddatblygu gwell dealltwriaeth o’r gofynion ar gyfer datblygu cymorth cyfrwng Cymraeg effeithiol yn unol â’r ddeddfwriaeth newydd.

Mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru cynhaliodd yr adran ADY ddiwrnod hyfforddiant uwchradd cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru (23/11/18) ar gyfer Cymorthyddion Ystafell Dosbarth. Bu 50 o Gymorthyddion Ystafell Ddosbarth ar gyfer 10 ysgol yn y gynhadledd.

**Blynyddoedd Cynnar**

Mae grŵp arweiniol Blynyddoedd Cynnar ADY rhanbarthol sy’n datblygu adnoddau, pecynnau hyfforddi a chefnogaeth ar gyfer lleoliadau gofal plant drwy’r rhanbarth fydd yn cynnwys ein holl Gylchoedd i sicrhau bod plant ag ADY yn cael eu cefnogi gan dimau staff gofal plant sydd â sgiliau addas ac sy’n gweithredu strategaethau i gefnogi mynediad at ddarpariaeth gofal plant, yn ogystal â gallu adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar.

**Deilliant 7: Cynllunio’r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.**

Ein hamcanion er mwyn cyflawni'r deilliant hwn yw:

1. Bydd EAS yn cynnal archwiliad o sgiliau Cymraeg ymarferwyr (athrawon a chynorthwywyr addysgu) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg a Chylchoedd Meithrin bob blwyddyn er mwyn asesu'r anghenion hyfforddiant.
2. Bydd EAS yn llunio cynllun systematig i ryddhau aelodau o'r staff ar gyfer hyfforddiant y Cynllun Sabothol mewn cydweithrediad ag ysgolion a chlystyrau.
3. Bydd cynlluniau gwella ysgolion yn dangos ymrwymiad i wella sgiliau ieithyddol ymarferwyr, gan gydweithio â Swyddogion Cymraeg mewn Addysg (ysgolion cyfrwng Saesneg) a thrwy gynllunio i ryddhau aelodau o'r staff mewn modd systematig i ddilyn hyfforddiant y Cynllun Sabothol (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) yn unol â dadansoddiad o'r anghenion.
4. Gwella sgiliau methodolegol ymarferwyr trwy waith Swyddogion Cymraeg mewn Addysg a thrwy fentrau ysgol i ysgol wedi'u cynllunio.
5. Datblygu strategaeth cynllunio ar gyfer olyniaeth i dimau arwain ysgolion gan ddefnyddio ymagwedd ranbarthol at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
6. Parhau i ddefnyddio'r Ffordd i Ddwyieithrwydd a darparu hyfforddiant i ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar er mwyn gwella sgiliau Cymraeg y sector gofal plant.

(yn berthnasol i weithred 2.3, 2.4&6.3 yn Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Cynhelir cwrs Cymraeg i Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar ddwywaith y flwyddyn am 6 wythnos i wella eu sgiliau Cymraeg a chynorthwyo plant mewn lleoliadau gofal plant i gaffael y Gymraeg. Mae hwn yn gwrs poblogaidd ac yn haf 2016 roedd 20 o bobl arno.

Bach yw'r niferoedd sy'n manteisio ar hyfforddiant y Cynllun Sabothol yn y rhanbarth ar hyn o bryd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg) ac nid yw hyn yn cael ei gynllunio'n strategol. Felly bydd Caerffili yn gweithio gyda'r EAS ac ysgolion i gynllunio ar gyfer rhyddhau aelodau o'r staff a chynorthwywyr addysgu mewn modd systematig i ddilyn hyfforddiant Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru er mwyn ymateb i'r anghenion a nodir yn yr archwiliadau o sgiliau Cymraeg a gynhaliwyd. Mae'n bosibl y mabwysiadir ymagwedd clwstwr wrth glwstwr. Bydd gwella sgiliau iaith y staff, yn arbennig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghaerffili, yn hanfodol i wireddu gweledigaeth Dyfodol Llwyddiannus a symud ymlaen gydag agenda Miliwn o Siaradwyr 2015. Mae gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni raglen o gymorth i'w staff, a ddefnyddir ochr yn ochr â'r Cynllun Sabothol i gynorthwyo â datblygiad ieithyddol.

Mae cydweithredu iach ar draws ysgolion yng Nghaerffili a thrwy'r model gweithio rhanbarthol. Mae rhaglen DPP Cymraeg gynyddol (llythrennedd) ar gael i ysgolion cyfrwng Cymraeg oddi wrth yr EAS ac mae ysgolion cyfrwng Cymraeg arweiniol yn rhannu arferion da mewn rhaglen ar y cyd a drefnir yn ganolog o gymorth ymgynghorol ac mewn ysgolion (methodoleg). Hefyd mae rhaglen ysgol i ysgol ranbarthol i gynorthwyo athrawon i anelu at ragoriaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o'r enw '*Anelu at Ragoriaeth*'. Gall ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fanteisio ar raglen DPP eang ac amrywiol trwy raglen yr EAS o hyfforddiant iaith a methodoleg. Mae rhaglen ymyrraeth dargededig yn bodoli hefyd ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd penodol i wella ethos Cymreig ysgolion ac iaith / methodoleg ymarferwyr. Mae Cynghorwyr Herio'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn annog ysgolion i fanteisio ar yr ystod eang o gyfleoedd hyfforddi y mae'n eu cynnig. Bydd angen i bob is-grŵp Rhanbarthol y Fforwm Addysg Gymraeg ystyried gofynion hyfforddiant a sgiliau iaith Gymraeg staff o fewn eu ffocws penodol. Yn yr is-grŵp Blynyddoedd Cynnar bydd ffocws ar gysylltu â'r is-grŵp 14-19 o ran datblygu digon o ymarferwyr gofal plant i lenwi'r galw cynyddol yn y sector ar gyfer staff cymwys sy'n siarad Cymraeg. Gyda chyfrifoldeb am y Grant Gwella Addysg a chodi safonau ysgolion, mae gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg rôl a chyfrifoldeb dros sicrhau bod digon o

siaradwyr Cymraeg ym mhob ysgol i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a chymwysterau Cymraeg ail iaith ac felly'n gweithio i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gall pob ysgol fanteisio ar raglenni arweinyddiaeth yr EAS (Paratoi at Brifathrawiaeth, CPCP). Mae cymorth ar gyfer arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg trwy raglenni partneriaeth cymheiriaid rhanbarthol a hwylusir secondiadau rhanbarthol lle bo'n briodol. Mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y rhanbarth yn gweithio mewn partneriaeth gref, gan drafod recriwtio yn rheolaidd. Er mwyn recriwtio cynorthwywyr addysgu Cymraeg, mae angen i ysgolion uwchradd y rhanbarth drafod darparu cyrsiau addas (e.e. CACHE) i ddisgyblion, yn enwedig yng ngoleuni ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyllid yn y dyfodol yn ogystal â defnyddio Lefelau 2 a 3 Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant y FfCCh, a ddefnyddir yn helaethach. Mae'r cwrs hwn yn ddefnyddiol i gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion ac i ymarferwyr gofal plant y mae eu hangen i weithredu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru erbyn 2020. Ar hyn o bryd mae'r cyrsiau hyn yn cael eu cyllido trwy'r llwybr prentisiaethau i bobl ifanc 16-24 oed a'r prosiect Cynnydd ar gyfer Llwyddiant a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, er mai cyfyngedig yw'r cyrsiau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg ac eithrio yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Cam Wrth Gam a Choleg Gwent.

Er mwyn inni allu sicrhau bod gennym weithlu digonol sy'n siarad Cymraeg ar draws yr ystod o gyfrifoldebau yn ein holl ysgolion cyfrwng Cymraeg, byddwn yn datblygu strategaeth effeithiol ar ddatblygu staff lle gallwn ganfod darpar ymarferwyr addas sydd â'r gallu i ddatblygu fel gweithwyr addysg proffesiynol ac ymarferwyr effeithiol a all ddatblygu cyfrifoldebau arweinyddiaeth ar bob lefel.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn un o Ysgolion Arloesi y Fargen Newydd ac o'r herwydd mae dyletswydd arni i sicrhau y gall pob ymarferydd proffesiynol gael profiad o ddysgu proffesiynol effeithiol. Rhaid iddi eu galluogi i ddatblygu'n barhaus, gwella eu harweinyddiaeth a'u dealltwriaeth o addysgeg ymarferol ac yn arbennig cynorthwyo â datblygu'r cwricwlwm newydd. Fel un o Ysgolion Arloesi y Fargen Newydd mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cael budd o gydweithredu â'r EAS wrth ddatblygu, hybu a darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y rhanbarth ac ar draws rhanbarthau eraill.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain y Rhwydwaith cyfrwng Cymraeg Dyfodol Llwyddiannus lle mae hyd at 40 o ysgolion ar draws Cymru'n cydweithredu o fewn y fframwaith rhanbarthol a chenedlaethol wrth ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru. Nod y rhwydwaith yw sicrhau y bydd gan yr holl aelodau ddealltwriaeth ddigonol o'r cwricwlwm newydd ac y byddant wedi cael digon o brofiadau datblygiadol i'w galluogi i gyflawni'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2018.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ganolog i drefniadaeth a gweithrediad rhwydwaith ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y De-ddwyrain (CYDAG De-ddwyrain Cymru). Mae CYDAG De-ddwyrain Cymru yn cynnwys 17 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws tri rhanbarth (Canolbarth y De, EAS ac ERW). Mae'r rhwydwaith yn cydweithredu wrth drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnwys diwrnodau HMS ar y cyd.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithredu ag ysgolion uwchradd Arloesi cyfrwng Cymraeg eraill y Fargen Newydd yn y De, fel aelod o rwydwaith cyfrwng Cymraeg y Fargen Newydd (Ysgol Gyfun Bro Morgannwg (y Barri), Ysgol Gyfun Gŵyr (Abertawe), Ysgol Gyfun Strade (Llanelli), Ysgol Gyfun Bro Pedr (Llanbedr Pont Steffan) ac Ysgol Gyfun Preseli (Sir Benfro)). Mae'r cyfleoedd pellgyrhaeddol hyn i rwydweithio ar draws ysgolion cyfrwng

Cymraeg y De yn galluogi Ysgol Gyfun Cwm Rhymni i gydweithredu â'r mwyafrif helaeth o weithwyr proffesiynol a darpar weithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith wrth ddatblygu arferion proffesiynol effeithiol a chanfod arweinwyr y dyfodol. Felly gall Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gael budd o gydweithredu ar draws y sector cyfrwng Cymraeg a gyda'r EAS i sicrhau bod y cyfleoedd datblygiad proffesiynol mwyaf effeithiol ar gael i'r staff yn y rhanbarth ac ar draws rhanbarthau eraill.

Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain y strategaeth datblygiad proffesiynol cyfrwng Cymraeg ar draws Partneriaeth 6 (partneriaeth gydweithredol rhwng Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Gyfun Gwent Is Coed). Felly bydd y bartneriaeth yn cael budd o ddatblygiadau a strategaethau arloesol sydd â'r nod o annog pob aelod o'r staff i gyflawni ei botensial a bydd hefyd yn ein galluogi i ddatblygu cynllunio effeithiol ar gyfer olyniaeth ar bob lefel.

Bydd y bartneriaeth yn datblygu cyfleoedd i alluogi ein holl staff i gyflawni eu potensial:
- Arwain a chynllunio'r strwythurau hyfforddi staff yn y rhanbarth ac ar draws rhanbarthau eraill yn unol â'r Fargen Newydd.
- Parhau i arwain strategaethau addysgol arloesol
- Gwneud defnydd effeithiol o'r arbenigedd addysgol sydd ar gael yn y rhanbarth ac ar draws rhanbarthau eraill
- Sicrhau cyfleoedd i athrawon arsylwi ar gymheiriaid
- Parhau i arwain Cymunedau Dysgu Proffesiynol
- Cynnal diwrnodau hyfforddiant mewn swydd ar y cyd o fewn y bartneriaeth ac ar draws rhanbarthau eraill
- Datblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol perthnasol o fewn y bartneriaeth ac ar draws rhanbarthau eraill
- Cydweithredu ar strategaeth i atgyfnerthu safonau llythrennedd athrawon a staff cymorth

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn datblygu Cynllun Strategol i'r tîm Cefnogi Addysg. Mae'r gwaith o ddatblygu ein tîm Cymorth Addysgol Ychwanegol Estynedig yn ganolog i'r cynllun strategol hirdymor i gynnwys yr holl staff fel cyfranwyr i ddatblygiad addysgol ein disgyblion. Rydym yn derbyn bod gan bob aelod o staff yr ysgol gyfraniad i'w wneud tuag at ddatblygiad addysgol ein disgyblion ac felly mae angen inni gydnabod y cyfraniad hwnnw ar lefel briodol. Bydd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y tîm Cefnogi Addysg ar draws Partneriaeth 6. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau y bydd pobl sydd ag uchelgais i ddatblygu'n cael cyfleoedd i barhau i ddatblygu trwy wneud cyfraniad sylweddol i'n disgyblion wrth iddynt gyflawni eu potensial.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn hyfforddi darpar gynorthwywyr ystafell ddosbarth. Mae nifer sylweddol o'r ymarferwyr sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Caerffili a'r rhanbarth wedi cael eu hyfforddi gan Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae'r ysgol hefyd yn cynorthwyo â hyfforddi ymarferwyr dan hyfforddiant yn y gweithle. Mae'r ysgol yn hyfforddi darpar gynorthwywyr gweinyddu ysgolion ac yn annog ei holl staff gweinyddol i ddilyn cyrsiau datblygu hyd at a chan gynnwys lefel gradd. Mae'n bwriadu hybu'r strategaeth hon er mwyn cynorthwyo â datblygu ymhellach staff gweinyddu ysgolion Cymraeg eu hiaith ar draws yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth.

Nid yw pawb sydd â gradd yn addas i fod yn athro gyda'r hyder i gefnogi gwersi i nifer sylweddol o ddisgyblion. Fodd bynnag mae gan amrywiaeth fawr o unigolion gyfraniad sylweddol i'w wneud i addysgu disgyblion ac i feithrin dealltwriaeth ehangach ymysg addysgwyr o anghenion pobl ifanc o ran datblygiad. Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi

datblygu strategaethau sydd â'r nod o feithrin dealltwriaeth addysgeg lefel uwch ymysg rhai nad ydynt yn athrawon mewn amgylchedd addysgol. Gallai'r strategaethau hyn fod yn elfennau allweddol yng Nghynllun Strategol Partneriaeth 6 i'r tîm Cefnogi Addysg:

Cynorthwywyr Dysgu Graddedig
Rydym yn datblygu ymarferwyr proffesiynol o ansawdd da trwy ddatblygu ac ymestyn eu profiadau yn y gweithle. Maent yn dangos hyblygrwydd a gwybodaeth trwy ymateb i anghenion pobl ifanc ar draws ystod o gyd-destunau addysgol. Mae'r Cynorthwywyr Dysgu Graddedig yn cyfleu gwybodaeth a dealltwriaeth am yr ystod o gyfyngiadau mae disgyblion yn eu hwynebu a'r strategaethau a ddefnyddir i'w rheoli. Mae'r Cynorthwywyr Dysgu Graddedig wedi ymrwymo i weithio gyda'r ysgol wrth astudio a dilyn Cynllun Datblygiad Proffesiynol Personol ac yn gweithredu fel cynorthwywyr dysgu ac addysgu yn yr ysgol.

Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Graddedig dan Hyfforddiant *(Interniaeth flwyddyn i ddarpar athrawon)*
Mae'r ysgol wedi datblygu strategaeth i hyfforddi Cynorthwywyr Addysgu Graddedig. Mae wedi'i bwriadu i alluogi unigolion i feithrin gallu a mwy o sgiliau proffesiynol yn y gweithle. Disgwylir y bydd y Cynorthwywyr Addysgu Graddedig dan Hyfforddiant yn cyfrannu'n effeithiol at strategaethau addysgol yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod o hyfforddiant byddant yn adeiladu ar eu profiadau blaenorol trwy ddatblygu sgiliau addysgol ac arweinyddiaeth fwyfwy er budd ein disgyblion. Disgwylir y byddant yn ystyried dilyn cwrs hyfforddi athrawon yn dilyn eu profiad yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Darpar Gynorthwywyr Dysgu Graddedig
Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn cydweithredu â Choleg y Cymoedd wrth ddatblygu cynllun hyfforddiant i Ddarpar Gynorthwywyr Dysgu Graddedig. Disgwylir y bydd y Darpar Gynorthwywyr Dysgu Graddedig yn meithrin sgiliau a galluoedd proffesiynol cynyddol yn y gweithle.

**Hyfforddiant Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili raglen hyfforddiant i gynorthwyo aelodau o'r staff i ddod yn rhugl eu Cymraeg. Mae'r rhaglen yn rhedeg ers 2001 ac yn rhoi i'r staff hyblygrwydd i ddysgu Cymraeg trwy nifer o wahanol ddulliau, o e-ddysgu i restr o wahanol ddosbarthiadau.

Mae cyflwyno Safonau'r Gymraeg ym mis Medi 2015 wedi rhoi gwerth i'r Gymraeg ac wedi codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fewnol ymysg y gweithlu.

Yn y flwyddyn academaidd 2016-2017, mae 37 aelod o'r staff wedi cofrestru i ddilyn cyrsiau blwyddyn ar lefelau amrywiol o Fynediad 1 (Blwyddyn 1 Dechreuwyr) i Uwch 4 (Blwyddyn 4 Uwch).

Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf roedd gennym 86 o ddysgwyr. Isod mae dadansoddiad fesul cyfadran a rhywedd;

| | Gwasanaethau Corfforaethol | Addysg | Amgylchedd | Gwasanaethau Cymdeithasol | Awdurdodau Allanol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwryw** | 2 | 2 | 4 | 3 | 6 |
| **Benyw** | 9 | 10 | 11 | 21 | 18 |

**Mudiad Meithrin**
Ar hyn o bryd mae Cam wrth Gam (is-gwmni hyfforddiant y Mudiad Meithrin) yn cynnig cyfleoedd prentisiaeth trwy Gynnydd ar gyfer Llwyddiant. Hefyd, bydd y Mudiad Meithrin yn

ystyried cyfleoedd i farchnata gyrfaoedd ym maes gofal plant gyda disgyblion blynyddoedd 10 ac 11. Cadarnhawyd fod gan Cam Wrth Gam 100 o leoedd led led Cymru yn y flwyddyn i ddod er mwyn datblygu staff gofal plant sy'n siarad Cymraeg.

Yn ogystal, cynigir cefnogaeth drwy beilot 6 mis ym Mudiad Meithrin i gefnogi cysondeb caffaeliad Cymraeg yn Cylchoedd (2 yng Nghaerffili o 5 ar draws rhanbarth Gwent).

Mae'r Ffordd i Ddwyieithrwydd, a ddarperir gan Menter Iaith a ariennir drwy CBSC, yn cefnogi caffaeliad Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ac yn annog y defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg ac adnoddau i ddarparu amgylchedd ieithyddol gyfoethog. Mae'r gwahanol lefelau (Arian, Aur ac Efydd) yn dangos faint o ddarpariaeth iaith Gymraeg y mae'r lleoliad yn gweithio tuag at ei chynnig. Mae'r holl leoliadau yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r Cynnig Gweithredol ac yn cael eu cefnogi i gyflawni hyn.

**Blynyddoedd Cynnar:**

Caiff sgiliau Cymraeg eu harchwilio fel rhan o fanyleb y tendr ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant blynyddoedd cynnar, fydd yn cael ei hysbysebu yn Rhagfyr 2017, a chaiff lefelau hyfforddiant priodol eu cynnig o ganlyniad i hyn. Eleni darparwyd un cwrs Cymraeg ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar gan staff y Fenter Iaith a chofrestrodd 23 ar y cwrs.

Mae’r llwybr i ddwyieithrwydd yn parhau i gael ei ddefnyddio gan leoliadau a gynhelir a nas cynhelir. Ar hyn o bryd mae 7 meithrinfa ddydd, 2 o warchodwyr plant, 6 grŵp chwarae, 7 lleoliad Dechrau’n Deg a gynhelir, a 6 lleoliad arall yn disgwyl ei ddechrau.

Ar hyn o bryd mae’r Mudiad Meithrin yn treialu prosiect Croesi’r Bont i wella’r Gymraeg mewn 2 Gylch Meithrin (Coed Duon a Dewi Sant) a disgwylir canlyniadau’r cynllun peilot 6 mis hwn ym Mawrth 2018.

Mae Blynyddoedd Cynnar ar fin tendro ar gyfer cymorth Cymraeg i leoliadau gofal plant drwy’r fwrdeistref ar gyfer darparu o Ebrill 2018. Bydd y sefydliad llwyddiannus yn gyfrifol am wella lefel y Gymraeg a ddefnyddir gan staff mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

**Coleg y Cymoedd:**

Mae gan Goleg y Cymoedd **Strategaeth Sgiliau Ieithyddol** sy’n cynnwys dwy elfen.

Y gyntaf yw **Arolwg Sgiliau Ieithyddol Staff** a gynhelir bob dwy flynedd. Cynhaliwyd y ddiwethaf yn Ionawr 2017 gyda 723 o staff (100%) yn ymateb i holiadur yn gofyn iddynt hunanasesu eu sgiliau siarad, deall, ysgrifennu a darllen Cymraeg. Mae canlyniadau’r arolwg yn dangos staff sy’n siarad Cymraeg a lefel eu sgiliau ac mae’r canlyniadau’n dangos pa staff a allai elwa ar gyfleoedd hyfforddi wedi’u targedu e.e. sesiynau methodoleg Sgiliaith, Cynllun Sabothol y Gymraeg, cyrsiau mewnol Cymraeg yn y Gweithle ayb.

Ail elfen y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yw **Archwiliad Sgiliau** o bob rôl yn y Coleg lle gofynnir i Reolwyr werthuso pob rôl wrth recriwtio aelodau newydd o staff er mwyn penderfynu a yw’r Gymraeg yn hanfodol neu’n ddymunol ar gyfer y rôl benodol honno.

**Mudiad Meithrin**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i’r Mudiad Meithrin dreialu cynllun newydd ar gyfer De

Ddwyrain Cymru, Croesi'r Bont. Mae ein swyddog Cross Crossing yn gweithio gyda staff yng Nghylch Meithrin Dewi Sant a Chylch Meithrin Coed Duon. Y bwriad yw

- Cyflwyno patrymau iaith i staff a phlant y Cylch
- Meithrin perthynas agos gyda'r Ysgol Gymraeg leol, cytuno ar iaith benodol

**Cynllun Hyfforddi Sabothol**
**Cymorthyddion dysgu cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru: Haf 2017**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Laura | Miller | Y Castell | Caerffili |
| Cerian | Williams | Gilfach Fargoed | Caerffili |
| Andrea | Thompson | Gilfach Fargoed | Caerffili |
| Kayleigh | Roberts | Y Castell | Caerffili |
| Victoria | O'Leary-Knapper | Penalltau | Caerffili |
| Wendy | Davies | Bro Alltau | Caerffili |
| Angela | Davies | Trelyn | Caerffili |
| Louise | Rees | Ysgol Gymraeg Caerffili | Caerffili |
| Sarah | Bradnock | Bro Helyg | Blaenau Gwent |
| Hayley | Booth | Cwmbran | Torfaen |
| Julie | Carpenter | Ysgol Gymraeg Cwmbran | Torfaen |


- Cynllun Sabothol peilot (cynllun peilot blwyddyn ar gyfer ymarferwyr cynradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg)
  Ysgolion sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd yw:
  Glyncoed, Blaenau Gwent
  Y Iau Llancaeach, Caerffili
  Tynewydd, Caerffili,
  Kymin View, Sir Fynwy
  Magor, Sir Fynwy
  I'w cefnogi gan y GCA ac ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n bartneriaid (secondiad yn nhymor 3, haf 2018):
  Bro Helyg, Blaenau Gwent
  Bro Alltau, Caerffili
  Cwm Gwyddon, Caerffili
  Y Fenni, Sir Fynwy
  Ifor Hael, Casnewydd
- Mae'r GCA wedi ymrwymo i sicrhau bod o leiaf un aelod o staff o bob clwstwr cyfrwng Saesneg yn cael ei hyfforddi drwy'r cynllun sabothol blwyddyn dros y tair blynedd nesaf ac mae'n helpu LIC i recriwtio. Bydd y dull clwstwr yn helpu i rannu arfer gorau ar draws y clwstwr.


**Archwiliad Iaith Gymraeg Rhanbarthol. Hydref 2017**
**Sector cyfrwng Cymraeg**

- Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae gan athrawon sy'n gweithio mewn ygolion cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth lefel uchel o sgiliau Cymraeg (Lefel 5)
- Mae gan fwyafrif y cymorthyddion dysgu (62%) sgiliau iaith (L5) yn ôl disgrifiadau lefel LlC gyda lleiafrif (36% L4, 2% L3%) yn gweithio'n bennaf ar L4.
- Mae'r GCA yn gweithio gyda LIC ac ysgolion i helpu i ddewis a rhyddhau staff i gael hyfforddiant ar y cynllun sabothol ac mae sesiwn hyfforddi pellach i ranbarth De Ddwyrain

Cymru ar gyfer cymorthyddion dysgu'n cael ei gynllunio ar gyfer haf 2018. Hyd yma mae tri o ymarferwyr o Gaerffili (Trelyn a Penalltau) ac un o Gasnewydd (Bro Teyrnon) ac un o Dorfaen (Panteg) wedi mynegi diddordeb yn yr hyfforddiant.

**Sector cyfrwng Saesneg**




**Swyddogion Dysgu Proffesiynol GCA (Cyfleoedd hyfforddi - Cymraeg): 2017-18**

FINAL LLC CYMRAEG Service area offer 201

FINAL LLC W2L Service area offer 201

Mae pob cwrs Cymraeg Ail Iaith wedi bod yn arbennig o lawn ac wedi'u hail-gynnal er mwyn cwrdd â'r galw. Caiff effaith yr hyfforddiant ei adrodd i bob ALI bob tymor.

**Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi mynegi diddordeb ar ran Partneriaeth Cyfrwng Cymraeg De Ddwyrain Cymru (Cwm Rhymni, Gwent Is Coed a Gwynllyw) yn y rhaglen arfaethedig Llwybrau Amgen i Addysgu. Mae Cwm Rhymni yn bwriadu adeiladu ar eu profiad sylweddol gyda'r RhAG a'u rhaglen Cymorthyddion Dysgu Graddedig sy'n galluogi graddedigion i gael profiad mewn ysgol cyn cael mynediad i'r cyrsiau RhAG neu TAR. Mae'r bartneriaeth yn credu, trwy gydweithio effeithiol y bydd ganddynt y capasiti i gefnogi'r rhaglen Llwybrau Amgen i Addysgu gan sicrhau y bydd Darpar Athrawon yn cael profiad dysgu o ansawdd uchel iawn.

**Hyfforddiant Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Diweddarwyd 17/12/18**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili raglen hyfforddi yn ei lle i helpu staff i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r rhaglen wedi cael ei chynnal ers 2001 ac mae'n cynnig hyblygrwydd i staff ddysgu'r Gymraeg drwy nifer o wahanol ddulliau o e-ddysgu i restr o wahanol opsiynau dosbarth.

Yn sgil cyflwyno Safonau'r Gymraeg ym Mawrth 2016, rhoddwyd gwerth i'r Gymraeg a chodwyd ymwybyddiaeth ohoni'n fewnol o fewn y gweithlu.

| Blwyddyn Academaidd | Cyrsiau 30 Wythnos | | | | Cyrsiau Blasu | Cyrsiau Ar-lein | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch+ | | | |
| **2016-2017** | 23 | 10 | 7 | 3 | 73 | 1 | 118 |
| **2017-2018** | 25 | 12 | 5 | 3 | 34 | 56 | 135 |
| **2018-2019** | 26 | 11 | 11 | 2 | - | 17 | 67* |

* Dyma'r nifer hyd yma, dechreuodd y flwyddyn academaidd ym Medi 2018 a bydd yn mynd tan fis Gorffennaf 2019, felly mae disgwyl i'r nifer hwn godi.

**Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r Fenter Iaith wedi darparu cwrs ar gyfer ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a helpu i weithredu'r Llwybr i Ddwyieithrwydd. Yn 2018 roedd un cwrs Iaith Meithrin gyda 9 o gyfranogwyr o 3 lleoliad yn bresennol ac yn gwella eu sgiliau.

Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Datblygwyd amrywiaeth o gefnogaeth gan y GCA rhwng ysgolion a thimau Ymgynghorol. Mae'r manylion yn yr adroddiad sydd ynghlwm isod i gael gwybodaeth am y model cymorth cymheiriaid rhanbarthol, Siarter y Gymraeg, Campws Cymraeg, Cynllun Sabothol Cymraeg, archwiliad Cymraeg a'r rhaglen hyfforddi ranbarthol.

EAS Caerphilly
Update Dec 2018 - w

Llofnodwyd: ……………………………… Dyddiad: ………………………………

Keri Cole, Prif Swyddog Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

**Data (Atodiad 1)**

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Ehangu’r ddarpariaeth**
Pa ganran o blant saith oed sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd?
Aeth 20% o ddisgyblion Bl 2 yng Nghaerffili i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2016.

**Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**
Pa ganran o ddysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) ar hyn o bryd?
Aseswyd 12.72% o ddisgyblion Caerffili yn y Gymraeg yn YGCRh yn 2016.

Sut mae’r ffigur hwn yn cymharu â chanran dysgwyr Blwyddyn 6 a aseswyd yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) dair blynedd ynghynt?
Roedd 12.9% o’r disgyblion yn mynd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn 2013.

**Trosglwyddo effeithiol a dilyniant ieithyddol**

Bydd y Mudiad Meithrin yn anfon data at yr ALl ym mis Tachwedd 2016.

Beth yw’r cyfraddau dilyniant rhwng:

- lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar gyfer plant o dan 3 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir sy’n darparu’r Cyfnod Sylfaen? Gweler y tabl data gan Fudiad Meithrin

- lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant o dan 3 oed a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir sy’n darparu’r Cyfnod Sylfaen? Gweler y tabl data gan Fudiad Meithrin

- lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir ac ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir? Gweler y tabl data gan Fudiad Meithrin

- lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant o dan 3 oed a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir sy’n darparu’r Cyfnod Sylfaen, ac wedyn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a gynhelir? Gweler y tabl data gan Fudiad Meithrin

- y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2? 100%

- Cyfnodau Allweddol 2 a 3? 100%

- Cyfnodau Allweddol 3 a 4? 100%

Nid oes gan Gaerffili unrhyw ysgolion uwchradd dwyieithog (categorïau 2A, 2B, 2C a 2CH).

**Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o ddysgwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

**Cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy’n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

Beth yw canran gyfredol y dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi’u cofrestru i sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf sy’n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg?
(NI ddylech gynnwys Llenyddiaeth Gymraeg. Mae pynciau TGAU cymhwysol a gwyddoniaeth ddwyradd cyfwerth â dau bwnc; mae cyrsiau byr cyfwerth ag un pwnc. Mae’n bosibl na fydd modd cynnwys pynciau BTEC gan nad yw’r corff dyfarnu’n gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

Mae 100% o ddisgyblion YGCRh, Caerffili, yn astudio 5 pwnc o leiaf drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â Chymraeg Iaith Gyntaf. Mae disgyblion Caerffili sydd yn YGCRh ar hyn o bryd wedi’u cofrestru i sefyll dau arholiad Mathemateg, dau arholiad Gwyddoniaeth, tri TGAU dewisol a Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ychwanegol at Gymraeg / Llenyddiaeth Gymraeg.

Beth yw targedau’r awdurdod ar gyfer cynyddu’r ganran hon? Amherthnasol
Gellir mynegi hyn naill ai fel targedau blynyddol neu fel un targed diwedd cynllun

Beth yw canran gyfredol y dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi’u cofrestru i sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf sy’n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau Lefel 1 neu Lefel 2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg?
Gweler uchod. 100%

(NI ddylech gynnwys Llenyddiaeth Gymraeg. Mae pynciau TGAU cymhwysol a gwyddoniaeth ddwyradd cyfwerth â dau bwnc; mae cyrsiau byr cyfwerth ag un pwnc. Mae’n bosibl na fydd modd cynnwys pynciau BTEC gan nad yw’r corff dyfarnu’n gwahaniaethu rhwng cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg)

Beth yw targedau’r awdurdod ar gyfer cynyddu’r ganran hon? Amherthnasol
Gellir mynegi hyn naill ai fel targedau blynyddol neu fel un targed diwedd cynllun

**Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy’n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion**

Pa ganran o ddysgwyr 16-19 oed sy’n astudio 2 bwnc neu fwy a) drwy gyfrwng y Gymraeg b) yn ddwyieithog (e.e. elfennau o gymwysterau/modiwlau)?
Mae 100% o ddisgyblion YGCRh, Caerffili, yn astudio 2 bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Deilliant 5: Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf**

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy’n cyrraedd Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen o leiaf mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog?

## 1. Data Rhanbarthol / Regional Data - Mamiaith / Welsh 1st Language

### Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase

### Deilliant 5 / Outcome 5

| ALl/LA | 2017 Cymraeg | 2018 Cymraeg | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 96.8 | *81.6* | -3.4 | 52.4 | -4.8 | 31.8 |
| **Caerffili** | 93.8 | *91.7* | 8.9 | 13.1 | 4.6 | 7.8 |
| **Mynwy** | 98.1 | *85.7* | -2.2 | 6.4 | -3.3 | 12.9 |
| **Casnewydd** | 94.5 | *94.4* | 7.7 | 1.8 | 2.6 | 7.2 |
| **Torfaen** | 83.8 | **94.5** | 24.2 | -0.3 | 3.4 | 12.0 |
| **GCA/EAS** | 92.4 | *91.5* | **9.4** | **8.6** | **3.2** | **10.7** |
| **Cymru** | 90.9 | *86.1* | **-** | **-** | **6.0** | **8.9** |

### Deilliant 6 / Outcome 6

| All/LA | 2017 Cymraeg | 2018 Cymraeg | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 32.3 | *26.3* | -19.0 | 28.6 | 3.3 | 19.3 |
| **Caerffili** | 38.0 | **38.8** | 16.5 | 26.7 | 9.8 | 15.8 |
| **Mynwy** | 50.0 | *40.8* | 20.0 | 45.5 | 7.5 | 18.6 |
| **Casnewydd** | 47.3 | **54.4** | 36.4 | 23.0 | 25.5 | 10.7 |
| **Torfaen** | 33.1 | **43.6** | 23.3 | -4.0 | 9.3 | 28.7 |
| **GCA/EAS** | 38.9 | **41.2** | **19.3** | **19.0** | **11.3** | **17.8** |
| **Cymru** | 38.1 | *33.2* | **-** | **-** | **13.7** | **13.6** |

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd Lefel 4 o leiaf yn yr asesiad athro yn y Gymraeg?

**Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2**

**Lefel 4**

| ALI/LA | 2017 Cymraeg | 2018 Cymraeg | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 88.6 | **96.7** | 15.3 | -3.4 | -13.5 | -7.1 |
| **Caerffili** | 94.7 | *93.8* | 10.0 | 9.1 | -5.6 | -6.3 |
| **Mynwy** | 86.8 | **96.1** | 38.9 | 22.9 | -20.5 | -8.0 |
| **Casnewydd** | 90.1 | **97.3** | 25.6 | 18.5 | -8.7 | -1.2 |
| **Torfaen** | 88.9 | **92.2** | 14.1 | 18.9 | -14.5 | -5.9 |
| **GCA/EAS** | **92.3** | **94.3** | **13.6** | **13.1** | **-8.5** | **-5.9** |
| **Cymru** | **91.6** | *89.7* | **-** | **-** | **-6.0** | **-6.5** |

**Lefel 5+**

| ALI/LA | 2017 Cymraeg | 2018 Cymraeg | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 17.1 | **26.7** | -8.9 | 27.6 | -20.1 | 3.6 |
| **Caerffili** | 40.5 | **41.0** | 24.8 | 32.8 | -22.7 | -13.4 |
| **Mynwy** | 44.7 | **47.1** | 47.2 | 23.9 | -1.7 | -37.4 |
| **Casnewydd** | 49.3 | **60.3** | 3.8 | 21.8 | -11.0 | -2.7 |
| **Torfaen** | 39.5 | **43.7** | 9.5 | 17.1 | -10.9 | -18.4 |
| **GCA/EAS** | **40.3** | **43.5** | **17.6** | **27.7** | **-18.2** | **-14.7** |
| **Cymru** | **41.5** | *40.4* | **-** | **-** | **-17.3** | **-14.3** |

**Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2**

**Sgiliau / Skills**

| ALl / LA<br>L4 | Llafaredd/Oracy | | Darllen/Reading | | Ysgri./Writing | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2018 | 2017 | 2018 | 2017 | 2018 |
| BG | 85.7 | **93.3** | 77.1 | **86.7** | 68.6 | **90.0** |
| Caerffili | 94.7 | **95.5** | 95.0 | *92.7* | 92.8 | *89.0* |
| Mynwy | 89.5 | **94.1** | 92.1 | **96.1** | 65.8 | **88.2** |
| Casnewydd | 95.8 | **97.3** | 90.1 | **97.3** | 90.1 | **91.8** |
| Torfaen | 88.9 | **95.1** | 88.9 | **90.3** | 79.0 | **86.4** |
| GCA | 93.0 | **95.4** | 92.1 | **92.8** | 87.0 | **88.9** |
| Cymru | 92.3 | *90.8* | 90.8 | *88.9* | 86.8 | *84.9* |

| ALl / LA<br>L5 | Llafaredd/Oracy | | Darllen/Reading | | Ysgri./Writing | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2018 | 2017 | 2018 | 2017 | 2018 |
| BG | 34.3 | **40.0** | 14.3 | **20.0** | 8.6 | **20.0** |
| Caerffili | 41.1 | **43.2** | 41.4 | **44.4** | 35.5 | *34.2* |
| Mynwy | 47.4 | **51.0** | 47.4 | **51.0** | 23.7 | **35.3** |
| Casnewydd | 49.3 | **64.4** | 50.7 | **60.3** | 35.2 | **43.8** |
| Torfaen | 40.7 | **45.6** | 39.5 | **48.5** | 27.2 | *24.3* |
| GCA | 42.1 | **46.6** | 41.0 | **46.3** | 31.7 | **33.1** |
| Cymru | 43.6 | *42.5* | 42.5 | **42.5** | 33.6 | *31.6* |

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd Lefel 5 o leiaf yn yr asesiad athro yn y Gymraeg?

**Cyfnod Allweddol 3 / Key Stage 3**

**Lefel 5**

| ALl/LA | 2017 Cymraeg | 2018 Cymraeg | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | - | - | - | - | - | - |
| **Caerffili** | 86.6 | 94.4 | 22.9 | 13.7 | 11.6 | 3.6 |
| **Mynwy** | - | - | - | - | - | - |
| **Casnewydd** | - | - | - | - | - | - |
| **Torfaen** | 89.9 | 94.0 | 10.0 | 8.0 | 15.7 | 7.9 |
| **GCA/EAS** | **88.0** | **94.3** | **16.7** | **12.0** | **13.4** | **5.1** |
| **Cymru** | **93.5** | **93.8** | | | **4.8** | **5.6** |

**Lefel 6+**

| ALl/LA | 2017 Cymraeg | 2018 Cymraeg | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | - | - | - | - | - | - |
| **Caerffili** | 54.7 | 67.9 | 36.1 | 26.2 | 16.9 | 20.3 |
| **Mynwy** | - | - | - | - | - | - |
| **Casnewydd** | - | - | - | - | - | - |
| **Torfaen** | 54.2 | 64.9 | 29.2 | 34.9 | 26.1 | 22.1 |
| **GCA/EAS** | **54.5** | **66.8** | **32.9** | **28.3** | **20.7** | **20.9** |
| **Cymru** | **62.9** | **63.8** | | | **19.1** | **20.3** |

**CA3 / KS3**

**Sgiliau / Skills**

| ALl / LA | Llafaredd/Oracy | | Darllen/Reading | | Ysgri./Writing | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| L5 | 2017 | 2018 | 2017 | 2018 | 2017 | 2018 |
| **BG** | - | - | - | - | - | - |
| **Caerffili** | 84.5 | 93.1 | 87.9 | 89.8 | 77.2 | 92.1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynwy** | - | - | - | - | - | - |
| **Casnewydd** | - | - | - | - | - | - |
| **Torfaen** | 89.3 | **91.7** | 89.9 | **92.9** | 88.1 | **89.9** |
| **GCA** | **86.5** | **92.6** | **88.8** | **90.9** | **81.8** | **91.3** |
| **Cymru** | 93.8 | 94.2 | 92.2 | 92.8 | 88.2 | 89.2 |

| **ALl / LA** | **Llafaredd/Oracy** | | **Darllen/Reading** | | **Ysgri./Writing** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **L6** | **2017** | **2018** | **2017** | **2018** | **2017** | **2018** |
| **BG** | - | - | - | - | - | - |
| **Caerffili** | 52.6 | **67.9** | 59.1 | **67.9** | 39.2 | **60.3** |
| **Mynwy** | - | - | - | - | - | - |
| **Casnewydd** | - | - | - | - | - | - |
| **Torfaen** | 53.0 | **62.5** | 51.8 | **62.5** | 53.0 | **60.7** |
| **GCA** | 52.8 | **66.0** | 56.0 | **66.0** | 45.0 | **60.5** |
| **Cymru** | 65.4 | 64.6 | 61.9 | 63.3 | 51.2 | 55.6 |

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf?

**Cyfnod Allweddol 4 / Key Stage 4**

| **ALl / LA** | **GCSE A*-C Cymraeg Language** | | |
|---|---|---|---|
| | Canlyniad Terfynol SSSP 2017 | **Diwrnod Canlyniadau** 2018 | Targed |
| - | - | - | - |
| Caerffili | 66.2 | 70.0 | 73.7 |
| - | - | - | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | - | - | - |
| Torfaen | 73.6 | 68.8 | 79.0 |
| **GCA / EAS** | **68.9** | **69.5** | **75.8** |
| **Cymru** | **74.2** | **74.0** | |

**Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith**

Pan ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd Lefel 4 o leiaf yn yr asesiad athro o Gymraeg Ail Iaith?

**Data Rhanbarthol / Regional Data - Ail Iaith / Welsh 2nd Language**

**CA2/KS2: Lefel 4**

| ALI/LA | L4 2017 CAI | L4 2018 CAI | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 85.0 | *84.0* | 10.4 | 16.8 | -15.4 | -10.0 |
| **Caerffili** | 84.4 | **85.9** | 22.3 | 17.9 | -6.8 | -9.7 |
| **Mynwy** | 88.4 | **90.9** | 7.0 | 13.3 | -6.5 | -3.2 |
| **Casnewydd** | 86.3 | **87.7** | 18.1 | 11.2 | -9.5 | -7.0 |
| **Torfaen** | 85.1 | **89.9** | 24.1 | 16.1 | -12.8 | -7.2 |
| **GCA** | **85.7** | **87.6** | **18.6** | **15.5** | **-9.5** | **-7.5** |
| **Cymru** | **80.9** | **81.3** | **-** | **-** | **-9.4** | **-10.4** |

**CA2/KS2:Lefel 5+**

| ALI/LA | 2017 CAI | 2018 CAI | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 27.8 | **34.5** | 16.4 | 14.2 | -23.7 | -23.2 |
| **Caerffili** | 33.9 | **35.5** | 23.1 | 23.8 | -17.5 | -16.9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynwy** | 38.5 | **42.3** | 23.2 | 26.0 | -17.8 | -13.5 |
| **Casnewydd** | 38.9 | *38.0* | 26.1 | 21.3 | -14.3 | -11.7 |
| **Torfaen** | 28.8 | **35.1** | 21.4 | 16.6 | -13.3 | -14.3 |
| **GCA** | **34.3** | **37.0** | **22.9** | **21.2** | **-16.6** | **-15.1** |
| **Cymru** | **26.3** | **27.7** | **-** | **-** | **-12.6** | **-12.8** |

**CA2 / KS2: Sgiliau / Skills**

| **ALl / LA** | **Llafaredd/Oracy** | | **Darllen/Reading** | | **Ysgri./Writing** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **L4** | **2017** | **2018** | **2017** | **2018** | **2017** | **2018** |
| **BG** | 85.0 | *84.0* | 77.6 | **81.3** | 74.5 | **75.8** |
| **Caerffili** | 84.4 | **86.0** | 80.1 | **81.8** | 76.1 | **78.7** |
| **Mynwy** | 88.4 | **90.9** | 84.6 | **86.0** | 81.1 | **82.5** |
| **Casnewydd** | 86.3 | **87.7** | 81.8 | **82.7** | 79.0 | **79.7** |
| **Torfaen** | 85.1 | **89.9** | 77.7 | **85.8** | 76.6 | **82.3** |
| **GCA** | 85.7 | **87.6** | 80.5 | **83.3** | 77.5 | **79.8** |
| **Cymru** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |

| **ALl / LA** | **Llafaredd/Oracy** | | **Darllen/Reading** | | **Ysgri./Writing** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **L5** | **2017** | **2018** | **2017** | **2018** | **2017** | **2018** |
| **BG** | 27.8 | **34.5** | 22.4 | **29.4** | 20.8 | **22.9** |
| **Caerffili** | 33.9 | **35.5** | 28.4 | **32.5** | 24.9 | **27.5** |
| **Mynwy** | 38.5 | **42.3** | 30.5 | **35.3** | 29.8 | **30.2** |
| **Casnewydd** | 38.9 | *38.0* | 30.0 | *27.7* | 26.9 | *25.5* |
| **Torfaen** | 28.8 | **35.1** | 22.7 | **29.1** | 20.2 | **27.7** |
| **GCA** | 34.3 | **37.0** | 27.4 | **30.6** | 24.8 | **26.8** |

| Cymru | - | - | - | - | - | - |
|---|---|---|---|---|---|---|

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 sy’n cyrraedd Lefel 5 o leiaf yn yr asesiad athro o Gymraeg Ail Iaith?

**CA3 / KS3: Lefel 5**

| Sir | L5 2017 CAI | L5 2018 CAI | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 79.6 | 87.5 | 17.1 | 8.8 | 11.9 | 12.1 |
| **Caerffili** | 83.4 | 86.3 | 22.7 | 18.6 | 13.1 | 14.0 |
| **Mynwy** | 88.8 | 90.2 | 20.5 | 20.4 | 6.6 | 8.5 |
| **Casnewydd** | 83.4 | 87.5 | 24.3 | 14.9 | 13.4 | 10.7 |
| **Torfaen** | 86.1 | 88.1 | 17.3 | 12.3 | 11.0 | 7.9 |
| **GCA** | **84.2** | **87.6** | **21.9** | **15.7** | **11.9** | **11.1** |
| **Cymru** | **83.8** | **84.6** | - | - | **12.0** | **11.9** |

**CA2 / KS3 :Lefel 6+**

| Sir | L6 2017 CAI | L6 2018 CAI | FSM Gap 17 | FSM Gap 18 | Rhyw Gap 17 | Rhyw Gap 18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BG** | 46.1 | *38.6* | 22.7 | 21.4 | 9.8 | 20.9 |
| **Caerffili** | 41.8 | *40.6* | 29.4 | 29.7 | 20.1 | 21.6 |
| **Mynwy** | 56.1 | 60.7 | 44.3 | 27.4 | 23.5 | 16.3 |
| **Casnewydd** | 43.2 | 52.3 | 29.5 | 34.5 | 18.3 | 20.4 |
| **Torfaen** | 52.3 | *45.8* | 31.0 | 21.2 | 24.2 | 20.7 |
| **GCA** | **46.3** | **47.0** | **31.2** | **29.4** | **19.9** | **20.3** |
| **Cymru** | **48.4** | **49.6** | - | - | **22.0** | **20.5** |

Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy’n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Gwrs Llawn? Pa ganran o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy’n cyflawni graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr?

*Yn aros am ddata CA4 / 5 ar gyfer Cymraeg Ail Iaith.*

*Ar gael ym mis Rhagfyr 2018*

Beth yw eich targedau ar gyfer gwella ym mhob un o’r uchod – naill ai’n flynyddol neu ar ddiwedd cyfnod y cynllun 3-blynedd?

Gosodir targedau ar gyfer gwelliant ym mherfformiad disgyblion gan ysgolion yn seiliedig ar ddata lefelau disgyblion unigol. Caiff y targedau hyn eu hadolygu bob tymor, a’u herio a’u monitro gan Ymgynghorwyr Her y GCA. Defnyddir y rhain bellach gan yr ysgolion yn benodol ar gyfer mesurau perfformiad unigol. Mae LlC bellach yn disgwyl y dylai targedau ysgolion gael eu defnyddio’n unig i gefnogi hunan werthusiad ac na ddylid eu cyfuno â mesur perfformiad awdurdod lleol neu ranbarthol. (llythyr LlC dyddiedig 25 Hydref 2018).

**Cymedroli Clwstwr CA2-3 / 2018**

Mae’r GCA yn dilysu’r broses cymedroli clwstwr ar gyfer Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ar ran ALl bob blwyddyn. Mae’r GCA yn dilysu gwahanol bynciau craidd mewn gwahanol ALl bob blwyddyn.

Yn 2017-18 cafwyd presenoldeb ym mhob cyfarfod cymedroli clwstwr ar gyfer Cymraeg Ail Iaith ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.
Dilyswyd y broses gymedroli ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf yng Nghaerffili.
Mewn ALl lle’r oedd ymgynghorwyr yn bresennol mewn cyfarfod cymedroli clwstwr, ysgrifennwyd adroddiadau pwrpasol a’u rhannu gyda phob clwstwr unigol. Darparwyd adroddiad cryno y GCA ar gyfer pob Awdurdod Lleol ar y GCA a chanfyddiadau clwstwr, Haf 2018.

Pa ganran o’r cohort sydd wedi’i chofrestru i sefyll (i) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn; (ii) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr; a (iii) nad yw wedi’i chofrestru am y naill na’r llall?

Mae hyn bellach mewn cyfnod o newid

**Mwy o ddysgwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**
Beth yw cyfanswm cyfredol nifer y disgyblion sydd wedi’u cofrestru i sefyll Lefel A Cymraeg Iaith Gyntaf, fel canran o nifer y disgyblion a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ddwy flynedd yn gynharach?

Beth yw cyfanswm cyfredol nifer y disgyblion sydd wedi’u cofrestru i sefyll Lefel A Cymraeg Ail Iaith fel canran o nifer y disgyblion a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg Ail Iaith, Cwrs Llawn a Chwrs Byr, ddwy flynedd yn gynharach?

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg**

Dim angen data

**Deilliant 7: Cynllunio’r gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Dim angen data

| Enw'r Cylch Meithrin / Cylch Ti a Fi /lleoliad gofal plant Cyfrwng Cymraeg nas cynhelir | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2014 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2014 | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2015 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2015 | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2016 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2016 | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2017 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2017 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberbargod 123 | 9 | 75% | 13 | 62% | 15 | 71% | 24 | 88.89% | Nid yw'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen na Dechrau'n Deg. |
| Coed Duon | 12 | 71% | 11 | 69% | 7 | 58% | 7 | 70% | Mae'r lleoliad yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen. Wedi'i leoli ar safle uwchradd cyfrwng Saesneg. |
| Cwm Derwen | 14 | 93% | 18 | 100% | 22 | 96% | 12 | 100% | Mae'r lleoliad yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen. Wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg. |
| Cwm Gwyddon | 36 | 77% | 24 | 100% | 30 | 81% | 20 | 71.43% | Nid yw'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen na Dechrau'n Deg. Wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg. |
| Dewi Sant | 3 | 9% | 1 | 3% | 2 | 5% | 3 | 4.35% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg.<br>Mae'r Mudiad Meithrin, y Fenter Iaith a'r ALI yn parhau i weithio gyda'r lleoliad hwn i wella safonau'r Gymraeg drwy'r cynllun Croesi'r Bont ac yn fwy diweddar drwy'r cynllun Llwybr i Ddwyieithrwydd.<br>Mae'n ymddangos bod rhieni'n pryderu mwy am gyfleustra nag Addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol er y gallai hynny newid yn y tymor hir pan ddatblygir yr ysgol yn nes at yr ardal. |
| Ifor Bach | 41 | 89% | 32 | 100% | 50 | 100% | 35 | 97.22% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg ond nid yw'n cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen. Wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg |
| Llanbradach | 11 | 65% | 8 | 58% | 14 | 70% | N/A | N/A | Caeodd y lleoliad hwn ar 24/7/17 |
| Nelson | 20 | 95% | 14 | 88% | 20 | 91% | 15 | 88.24% | Mae'r lleoliad yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen ac mae cytundeb ganddynt i ddarparu lleoedd Dechrau'n Deg yn y dyfodol ond nid yw'n gwneud hynny eto. Heb ei leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg. |
| Parc Waunfawr | 5 | 38% | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% | Mae hwn yn dal yn lleoliad rhan amser heb ei gofrestru ac felly nid yw'n cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen na Dechrau'n Deg. Nid yw wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg |
| Penalltau | 22 | 100% | 22 | 100% | 25 | 100% | | | Nid yw'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen na Dechrau'n Deg. Wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg |
| Penpedairheol | 14 | 78% | 8 | 62% | 1 | 11% | 5 | 45.45% | Nid yw'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen na Dechrau'n Deg. Rhaid i ddisgyblion deithio i fynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol. |

| Enw'r Cylch Meithrin / Cylch Ti a Fi /lleoliad gofal plant Cyfrwng Cymraeg nas cynhelir | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2014 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2014 | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2015 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2015 | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2016 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2016 | Nifer y plant sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2017 | Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Medi 2017 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Mae staff y Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda staff y Cylch i wella cyfathrebu gyda'r ddwy ysgol fwyaf lleol. |
| Pontllan-ffraith | 6 | 43% | 5 | 36% | 8 | 44% | 8 | 40% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg.<br>Y lleoliad yw'r unig ddarpariaeth cyn-ysgol yn yr ardal sy'n bwydo 8 gwahanol ysgol; 4 ysgol Gymraeg a 4 cyfrwng Saesneg. Nid oes cludiant am ddim ar gyfer plant 3 oed i'r ysgol agosaf YGG Trelyn a allai wneud dewisiadau'n fwy o her. |
| Rhymni | 21 | 81% | 24 | 83% | 19 | 86% | 19 | 86.36% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg ond nid yw'n cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen. Nid yw wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg |
| Tedi Twt | 18 | 100% | 9 | 100% | 10 | 91% | 24 | 100% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg ond nid yw'n cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen. Wedi'i leoli ar hyn o bryd ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg |
| Tonyfelin | 21 | 91% | 27 | 100% | 30 | 100% | 35 | 94.59% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen. Nid yw wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg. Dyma'r unig Gylch Meithrin yn nhref Caerffili sy'n bwydo 2 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. |
| Yr Enfys | 15 | 88% | 16 | 89% | 25 | 86% | 12 | 85.71% | Mae'r lleoliad hwn yn cynnig lleoedd Cyfnod Sylfaen ac mae wedi'i gofrestru i gynnig lleoedd Dechrau'n Deg yn y dyfodol pan fydd wedi cyrraedd y meini prawf cymhwysedd. Wedi'i leoli ar safle cynradd cyfrwng Cymraeg |
| **Caerffili** | **268** | **75%** | **232** | **76%** | **278** | **68%** | **216** | **69%** | **Mae data 2017 yn dangos cynnydd bach mewn cyfraddau trosglwyddo** |

**Atodiad 2 Arolwg Rhieni:**

Mae arolwg 2018 ar-lein ar hyn o bryd a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 21 Rhagfyr 2018. Caiff ei ddadansoddi a'i ddiweddaru yn y rhan hon yn ystod Gwanwyn 2019.

# Arolwg Cyn-Ysgol 2014/2015 Dadansoddiad o'r Ymatebion i Arolwg 1 Medi 2014 - 31 Awst 2015

## Crynodeb

Rhwng 2004 a 2013 cynhaliwyd deg arolwg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Pwrpas yr arolygon oedd casglu gwybodaeth am leoedd ysgol a ddewiswyd gan rieni i 20,614 o fabanod a aned rhwng 1 Medi 2004 a 31 Awst 2014 (100% o gyfanswm y genedigaethau yn y cyfnod hwn). Bwriad yr arolygon oedd asesu lefelau cymharol y galw am addysg cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu Ffydd.

## Dull

Ar gyfer arolwg 2014/15 rhoddwyd gwybodaeth am fabanod a aned rhwng 1 Medi 2014 a 31 Awst 2015 gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Roedd yr wybodaeth a roddwyd yn cynnwys enw'r babi, dyddiad geni, cyfeiriad a chod post. Defnyddiwyd y codau post i allu mapio'r dalgylch.

Lluniwyd holiadur a llythyr pennawd i gyd-fynd ag ef, oedd yn rhoi gwybodaeth am yr arolwg. Anfonwyd yr holiadur a'r llythyr yn Saesneg ac yn Gymraeg at y ddau Riant / Warcheidwad. Er mwyn annog ymateb, rhoddwyd amlen Rhadbost i'w ddychwelyd. Roedd y llythyr yn cyfeirio ar y Llyfryn Dechrau Ysgol sy'n disgrifio'r ddarpariaeth addysg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a baratowyd gan yr Awdurdod Lleol.

DRAFT

Roedd dwy ran i'r holiadur
Rhan A. Gwybodaeth am y Plentyn – gofynnwyd am nifer y plant o dan 2 oed ar 31 Awst 2015, dyddiad(au) geni y plentyn/plant a chod post y cartref.

Rhan B. Ysgol ddewisol - roedd hon yn gwahodd y rhiant i ddewis ysgol o restr o holl ysgolion Bwrdeistref Sirol Caerffili. Roedd y rhan hon hefyd yn cynnwys tri chwestiwn pellach yn gofyn a fyddent wedi dewis ysgol Gymraeg os byddai un ar gael o fewn 2 filltir i'r cartref, dros 2 filltir i'w cartref a'r uchafswm pellter i deithio i'r ysgol

Anfonwyd cyfanswm o 2037 o holiaduron. Rhoddwyd mis i rieni ymateb.

## Ymatebion

Tabl 1 – mae'n dangos y gyfradd ymateb gyffredinol i'r holiadur

Tabl 1: Cyfradd Ymateb

| | |
|---|---|
| Nifer a anfonwyd | 2037 |
| Nifer a ddychwelwyd | 518 |
| **Canran ymateb** | **25.4%** |

Mae'r gyfradd ymateb gyffredinol o 25.4% yn dda i arolwg drwy'r post, er 4.6% yn is na'r arolwg blaenorol. Ni chysylltwyd â'r rhai na wnaeth ymateb oherwydd cyfyngiadau amser a chost.

### Tabl 2: Dewis Cyfrwng Iaith

Gofynnwyd i rieni ddewis eu hysgol. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r dewisiadau o ran cyfrwng iaith. O'r 406 a ddewisodd ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, dewisodd 6 o'r rhain ysgol ffydd.

| Dewis | Cyfanswm | Canran |
|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg yn y dalgylch | 82 | 15.8% |
| Ysgol Gymraeg y tu allan i'r dalgylch | 30 | 5.8% |
| Ysgol Saesneg yn y dalgylch | 276 | 53.3% |
| Ysgol Saesneg y tu allan i'r dalgylch | 124 | 23.9% |
| Ysgol Ffydd | 6 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **518** | **100.0%** |
| | | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg | 112 | 21.6% |
| Ysgol cyfrwng Saesneg | 400 | 77.2% |
| Ysgol Ffydd | 6 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **518** | **100.0%** |
| | | |

DRAFT

### Tablau 3a, 3b a 3c: Dewis Cyfrwng Iaith yn Seiliedig ar Bellter i'r Ysgol

Gofynnwyd i rieni a fyddent wedi dewis ysgol cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar y pellter o'u cartref. Dangosir y canlyniadau isod.

### Tabl 3a: Dadansoddiad o'r rhai a fyddai'n dewis ysgol cyfrwng Cymraeg pe bai un ar gael o fewn 2 filltir i'w cartref.

*Atebodd 536 alla o 541 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (99.1%)*

| **Dewis** | **Tebygol iawn** | **Tebygol** | **Eithaf tebygol** | **Eithaf annhebygol** | **Annhebygol** | **Annhebygol iawn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 109 | 7 | 5 | 0 | 0 | 0 | 121 |
| Saesneg | 26 | 25 | 21 | 38 | 75 | 224 | 409 |
| Ffydd | 0 | 0 | 1 | 1 | 2 | 2 | 6 |
| **Cyfanswm** | **135** | **32** | **27** | **39** | **77** | **226** | **536** |
| Cymraeg | 90.1% | 5.8% | 4.1% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |
| Saesneg | 6.4% | 6.1% | 5.1% | 9.3% | 18.3% | 54.8% | 100.0% |
| Ffydd | 0.0% | 0.0% | 16.7% | 16.7% | 33.3% | 33.3% | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **25.2%** | **5.9%** | **5.0%** | **7.3%** | **14.4%** | **42.2%** | **100.0%** |

Fel y disgwylid, byddai mwyafrif y rhai sy'n dewis ysgol cyfrwng Cymraeg wedi dewis un pe bai ar gael o fewn 2 filltir i'w cartref. Fodd bynnag, ni fyddai mwyafrif (73.1%) y rhai sy'n dewis ysgol cyfrwng Saesneg wedi dewis cyfrwng Cymraeg hyd yn oed pe bai ysgol Gymraeg o fewn 2 filltir i ffwrdd.

### Tabl 3b: Dadansoddiad o'r rhai a fyddai'n dewis ysgol cyfrwng Cymraeg pe bai un ar gael fwy na 2 filltir o'u cartref.

*Atebodd 519 allan o 541 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (95.9%)*

| Dewis | Tebygol iawn | Tebygol | Eithaf tebygol | Eithaf annhebygol | Annhebygol | Annhebygol iawn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 76 | 12 | 11 | 9 | 10 | 3 | 121 |
| Saesneg | 17 | 6 | 16 | 34 | 74 | 266 | 413 |
| Ffydd | 0 | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 | 6 |
| **Cyfanswm** | **93** | **18** | **28** | **43** | **86** | **272** | **540** |
| Cymraeg | 62.8% | 9.9% | 9.1% | 7.4% | 8.3% | 2.5% | 100.0% |
| Saesneg | 4.1% | 1.5% | 3.9% | 8.2% | 17.9% | 64.4% | 100.0% |
| Ffydd | 0.0% | 0.0% | 16.7% | 0.0% | 33.3% | 50.0% | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **17.2%** | **3.3%** | **5.2%** | **8.0%** | **15.9%** | **50.4%** | **100.0%** |

Byddai dros 81% o'r rhai sy'n dewis ysgol cyfrwng Cymraeg yn dal i ddewis y cyfrwng hwn hyd yn oed pe bai'r ysgol yn fwy na 2 filltir i ffwrdd. Byddai dros 90% o'r rhai sy'n dewis ysgol cyfrwng Saesneg yn cadw at y dewis hwn pe bai ysgol cyfrwng Cymraeg yn fwy na 2 filltir i ffwrdd.

### Tabl 3c: Dadansoddiad o uchafswm pellter teithio i'r ysgol yn ôl y cyfrwng dewisol.

*Atebodd 519 allan o 541 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (95.9%)*

DRAFT

| Dewis | Llai na 10 munud | Rhwng 10 munud ac 20 munud | Rhwng 20 munud ac 30 munud | Rhwng 30 munud ac 45 munud | Rhwng 45 munud a 50 munud | Mwy na 60 munud | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | 31 | 69 | 17 | 4 | 0 | 0 | 121 |
| Saesneg | 145 | 215 | 29 | 4 | 0 | 0 | 393 |
| Ffydd | 1 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | **177** | **286** | **48** | **8** | **0** | **0** | **519** |
| Cymraeg | 25.6% | 57.0% | 14.1% | 3.3% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |
| Saesneg | 36.9% | 54.7% | 7.4% | 1.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |
| Ffydd | 20.0% | 40.0% | 40.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **34.1%** | **55.1%** | **9.2%** | **1.6%** | **0.0%** | **0.0%** | **100.0%** |

Byddai 96.7% o'r rhai sy'n dewis ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fodlon teithio hyd at 30 munud i'r ysgol, tra byddai 99.0% o'r rhai sy'n dewis ysgolion cyfrwng Saesneg yn teithio hyd at 30 munud (felly dim gwahaniaeth gwirioneddol). Fodd bynnag, mae'r ganran sy'n fodlon teithio 20-30 munud i'r ysgol yn uwch ar gyfer cyfrwng Cymraeg na chyfrwng Saesneg (14.1% o'i gymharu â 7.4%), felly ar gyfartaledd mae rhieni'n fodlon teithio ychydig pellach i gael ysgol Gymraeg. Dim ond 1.6% o'r rhai wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn fyddai'n fodlon teithio dros 30 munud.